Arolygiaeth Prawf EM

# Adroddiad Blynyddol 2019/2020: arolygiadau o wasanaethau prawf

RHAGFYR 2020

# Cynnwys

**Cynnwys....................................................................................................2**
**1. Ffeithiau allweddol..............................................................................5**
**2. Trosolwg y Prif Arolygydd ....................................................................6**
**3. Effaith Covid-19 .................................................................................11**
**4. Effaith *Trawsnewid Adsefydlu*............................................................12**
Sut y perfformiodd y cwmnïau CRC?.......................................................12
Perfformiad yr NPS ................................................................................15
**5. Staffio a llwythi gwaith........................................................................17**
**6. Cadw pobl yn ddiogel..........................................................................21**
**7. Lleihau aildroseddu ac ateb anghenion defnyddwyr gwasanaethau prawf .....30**
Beth yw prif anghenion defnyddwyr gwasanaethau prawf?.......................................30
Drwy'r Gât ...........................................................................................35
Arolygiad o'r llety a chymorth a roddir i droseddwyr (oedolion) yn y gymuned ac ar ôl eu rhyddhau o garchar yn Lloegr.......................................................37
Rhoi mwy o lais i ddefnyddwyr gwasanaeth ...............................................38
**Atodiad 1 – Data ategol ..........................................................................40**
**Atodiad 2: Effaith arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM ...................................43**

Cofiwch drwy gydol yr adroddiad hwn fod enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch

alndepartment@powys.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi bod gan ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP), 1st Floor Civil Justice Centre, 1 Bridge Street West, Manchester, M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

ISBN: 978-1-84099-966-2

## 1. Ffeithiau allweddol

### Ffeithiau poblogaeth y gwasanaeth prawf

| Nifer yr unigolion sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ar ddiwedd Mawrth 2020[1]: 241,350 | |
|---|---|
| Gorchmynion Cymunedol | 63,761[2] |
| Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig | 37,984 |
| Ar Drwydded | 68,863 |
| Yn y Carchar | 76,300 |

| Llety | |
|---|---|
| Y rhai a ddedfrydwyd i ddedfryd gymunedol neu ohiriedig, a lle'r oedd amgylchiad eu llety yn hysbys ar ddechrau eu dedfryd: | |
| **94% wedi cael llety** | **6% yn ddigartref** |
| Y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa lle mae amgylchiadau llety noson gyntaf yn hysbys: | |
| **81% wedi cael llety** | **19% yn ddigartref.**[3] |

| Addysg, hyfforddiant a gwaith | |
|---|---|
| Y rhai a ddedfrydwyd i gymuned a dedfryd ohiriedig - ar ddechrau eu dedfryd - sydd ar gael i weithio lle mae amgylchiadau cyflogaeth yn hysbys: | |
| **43% yn cael eu cyflogi** | **56% yn ddi-waith** |
| Y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa ac sydd ar gael ar gyfer gwaith a gyflogir cyn pen chwe wythnos ar ôl eu rhyddhau (lle mae amgylchiad cyflogaeth yn hysbys): | |
| **12% yn cael eu cyflogi** | **88% yn ddi-waith.**[4] |

[1] Mae'r ystadegau ar gyfer Cymru a Lloegr / diwedd mis Mawrth 2020 yw pan gafodd arolygiadau eu stopio oherwydd Covid-19.
[2] Ministry of Justice. (2020). Offender Management Caseload Statistics as at 31 March 2020.
[3] Ministry of Justice. (2020). Community performance quarterly: April to March 2020.
[4] HM Inspectorate of Probation. (2020). Exceptional Delivery Model Arrangements in Probation Services in response to the Covid-19 Pandemic.

| Ymyriadau achrededig | |
|---|---|
| Y gostyngiad yn yr unigolion sy'n cychwyn rhaglenni achrededig Ion - Mawrth 2019 i Ionawr - Mawrth 2020: | ↓ -6% (ar gyfer y rhai yn y gymuned gorchmynion gohirio gorchmynion dedfrydu)[5] |

| Cyfraddau aildroseddu o fewn 12 mis | |
|---|---|
| I'r rhai a ddechreuodd ddedfryd gymunedol neu ddedfryd ohiriedig gan ddechrau rhwng Hydref a Rhagfyr 2018. | **31%** |
| For those released from a custodial sentence of less than 12 months between October and December 2018: | **61%** |
| I'r rhai a ryddhawyd o ddedfryd o garchar o lai na 12 mis rhwng Hydref a Rhagfyr 2018: | **27%**[6] |

| Troseddau Pellach Difrifol 2019/2020 | |
|---|---|
| Nifer yr hysbysiadau trosedd pellach difrifol (SFO): | **537** |
| Nifer yr adolygiadau SFO a gynhaliwyd o'r hysbysiadau: | **473** |

## Ffeithiau arolygu


Rhifau arolygu achosion:


| | 2018 - 2019 | 2019-2020 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion a arolygwyd** | **5,945** | **2,093** |
| **CRC** | | |
| Achosion dan oruchwyliaeth swyddogion cyfrifol | **2,474** | **1,121** |
| Achosion gwaith di-dâl | **894** | **414** |
| Sylwadau gwaith di-dâl gan arolygwyr | **Amh** | **106** |
| TTG | **667** | **297** |
| **NPS** | | |
| Goruchwylio achos | **834** | **119** |
| Adroddiadau llys / dyraniadau achos | **808** | **115** |
| Gwaith statudol i ddioddefwyr | **268**[7] | **27** |
| **Arolygiadau wedi'u cynnal** | | |
| Arolygiadau CRC | **21** | **10** |
| Arolygiadau NPS | **7** | **1** |


[5] Ministry of Justice. (2020). Offender management statistics quarterly: January to March 2020..
[6] Ministry of Justice. (2020). Proven reoffending statistics: October 2018 to December 2018
[7] Yn ogystal â'r achosion hyn, gwnaethom archwilio is-set o'n sampl goruchwylio achosion i edrych ar y cyfnod cyn rhyddhau ar unwaith.

**Siartiau cylch yn dangos graddfeydd cyffredinol CRC a NPS**

**2018/2019: 21 CRCs a 7 adran NPS 2019/2020: 9 CRC [8] plws NPS**




[8] Oherwydd bod Covid-19 wedi torri ar draws yr arolygiad, roedd arolygiad CRC Hampshire ac Ynys Wyth yn anghyflawn ac ni roddwyd sgôr gyffredinol.

# 2. Trosolwg y Prif Arolygydd

Bu'n flwyddyn o heriau annisgwyl a chwbl ddigyffelyb i'r gwasanaeth prawf; gwelsom newid mawr yn ein cyfeiriad strategol hirdymor, ond hefyd faterion cyfarwydd sy'n ail-godi droeon – yn ymwneud ag adnoddau, staffio a'r amgylchedd gwaith.

Mae'n ddiwedd cyfnod i *Trawsnewid Adsefydlu* wrth inni ddychwelyd at reolaeth gan y sector cyhoeddus, a myfyriwn ar sut y mae'r pum mlynedd diwethaf wedi dylanwadu, datblygu a herio'r gwasanaeth prawf.

Mae llawer wedi croesawu'r newidiadau sydd ar fin digwydd ond rydym yn cydnabod i rai - fel uwch-arweinwyr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) – bod siom. Mae'r cwmnïau CRC wedi gweithio gyda dan bwysau cyllidebol enfawr i gyflwyno modelau gweithredu arloesol ac arbrofol. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cydnabod y gwaith da hwn a hefyd yn bwrw golwg onest ar sut y mae perfformiad wedi llafurio dan bwysau'r prinder adnoddau.

Eleni rydym wedi ehangu sgôp yr hyn y gallwn ei gynnig i'r gwasanaeth prawf; nid yn unig i weld sut y gall gwasanaethau unigol wella, ond hefyd i dynnu sylw a lledaenu ymarfer effeithiol, er budd holl ddefnyddwyr y gwasanaethau. Mae ein harolygiadau thematig o lety i bobl dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf, ac ansawdd yr adolygiadau o Droseddau Pellach Difrifol (SFO) yn dystiolaeth o sut y gall cyfuno arbenigedd ein harolygwyr ar draws Cymru a Lloegr gyda'n hymchwil roi persbectif 'darlun mwy' o'r prif agweddau ar waith prawf.

Edrychodd un arolygiad thematig hanfodol – er annisgwyl – eleni ar effaith Covid-19. Fel y nodwn yn yr adroddiad hwn, mae darparwyr prawf i'w canmol am y tosturi a'r proffesiynoldeb a ddangoswyd ganddynt wrth orfod newid eu dulliau o weithio'n effeithiol a disymwth, bron dros nos, mewn ymateb i'r pandemig. Mae hyn yn wir am bob lefel yn y gwasanaeth prawf, er nid heb ei heriau.

Unwaith eto roedd diogelu'r cyhoedd a rheoli'r risg o niwed yn effeithiol yn flaenoriaethau blaenllaw i'n gwaith. Dyma'n sicr oedd ffocws ein hymateb i gais yr Arglwydd Ganghellor ein bod yn cynnal adolygiad manwl o achos Joseph McCann, a gyflawnodd nifer o droseddau rhywiol a threisgar dychrynllyd ag yntau dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf. Mae ein hadolygiad, sydd mewn dwy ran, yn gwneud mwy na thynnu sylw at feiau a methiannau; mae hefyd yn disgrifio'r hyn a ddysgom gyda'r nod o ddylanwadu ar y gwasanaeth er gwell. Mae'r ffaith bod rheoli risg yn parhau i fod yn un o'r agweddau gwannaf ar berfformiad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r cwmnïau CRC yn bryder mawr, ac yn rhywbeth y trafodwn yn yr adroddiad hwn.

### Ariannu

Ers dros 15 mlynedd mae llai o arian wedi'i roi i'r gwasanaeth prawf; mae gwariant y llywodraeth am bob person dan oruchwyliaeth i lawr 40% mewn termau real ers 2003/2004 (i ddim ond £3,550 yn 2018/2019) – ac mae diffygion yng nghontractau diweddar y cwmnïau CRC yn golygu bod hyn yn debygol o fod yn waeth i droseddwyr risg ganolig / isel. Erbyn Mawrth 2018 roedd y cwmnïau CRC yn darogan colledion o bron i £300m ar eu contractau, o'i gymharu ag elw disgwyliedig o £269m – gwahaniaeth o dros £560m. Mae'r effeithiau ehangach ar y system gyfan yn glir; toriadau mawr yn nifer y swyddogion prawf (PO) a buddsoddiad stond mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), seilwaith a chynnal a chadw adeiladau.

Gwyddom fod y gwasanaethau prawf yn rhan o ecosystem sydd hefyd yn dioddef o ddiffyg buddsoddiad, ac yn fwy diweddar, o effaith Covid-19. Maen nhw'n dibynnu ar gymaint o

wasanaethau eraill i gynorthwyo'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw, fel y gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau trin cyffuriau a'r elusennau mentora a chymorth cyflogaeth.

Efallai mai'r poen meddwl mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaeth yw'r pryder am lety – mae dros 11,000 o garcharorion yn cael eu rhyddhau i fod yn ddigartref pob blwyddyn. Mae colli tai cymorth a glustnodir i bobl ar brawf, newidiadau i'r rheolau ar fudd-daliadau, a rhwystrau eraill, wedi creu argyfwng tai i lawer y mae'r gwasanaeth yn eu goruchwylio. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth i lywodraeth wrth symud ymlaen.

Mae rhai arwyddion cynnar da fod pethau efallai'n gwella – er bod hynny o fan cychwyn isel; mae'r llywodraeth wedi buddsoddi £150m ychwanegol yn y gwasanaeth prawf ar gyfer 2020/21. Gwyddom fod £22m ychwanegol y flwyddyn i gwmnïau CRC wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i wasanaethau Drwy'r Gât ar gyfer carcharorion sy'n gadael y carchar – dyfarnwyd wyth allan o ddeg fel 'Rhagorol' gennym ar ansawdd y gwaith hwn. Roedd yr arian ychwanegol a ryddhawyd gan y llywodraeth ar gyfer llety brys ar ddechrau'r cyfnod clo wedi'i groesawu'n eang gan y staff prawf a holwyd gennym.

## *Trawsnewid Adsefydlu*

Rydym bellach yn y chweched a'r flwyddyn olaf o'r diwygiadau *Trawsnewid Adsefydlu*, o ystyried penderfyniad y llywodraeth – ym Mai 2019 – i derfynu'r contractau hyn yn gynnar.

Mae wedi bod yn lôn anwastad i'r model gweithredu hwn ac mae canlyniadau ei ddiffygion – fel y straen a achoswyd gan ddulliau gwallus o dalu – wedi bod yn glir drwy gydol ein harolygiadau fel y nododd fy rhagflaenydd yn ei hadroddiad blynyddol cyntaf yn 2017:

*'...gwelwn yn glir ei fod yn wasanaeth darniog dwy-haen...'clywsom fod staff yr NPS yn "brysur ond ddim dan bwysau mawr"'.*

*'...mae nifer o gwmnïau CRC wedi cwtogi ar staff fwy nag unwaith...mewn rhai, mae gan staff lwythi gwaith trwm iawn ac oriau hir ond eto'n methu â darparu i'r safonau proffesiynol angenrheidiol'.*

*'...ar y cyfan, nid oes digon yn cael ei wneud na'i wneud i safon dderbyniol mewn tua hanner yr holl achosion CRC a arolygwyd'.*

Nid dyma'r unig broblemau. Yn ein harolygiadau cynnar, gwelsom anawsterau difrifol gyda gweithredu'r systemau TGCh newydd; yn ôl arolygiad thematig ar-y-cyd o'r trefniadau Drwy'r Gât gydag Arolygiaeth Carchardai EM: '...dim ond llond llaw o unigolion sy'n derbyn unrhyw gymorth gwirioneddol gyda thai, swyddi neu broblem sylweddau' ac 'nid yw'r cwmnïau CRC yn gwneud dim gwahaniaeth bron i ragolygon yr unigolion ar ôl eu rhyddhau'. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai ardaloedd CRC ond drwy eu harolygu yn erbyn ein safonau a'n dyfarniadau newydd, dyfarnwyd 19 allan o 21 fel 'Angen gwella' (2018/2019).

Yn ei hadroddiad blynyddol olaf fel Prif Arolygydd ym mis Mawrth 2019, dywedodd fy rhagflaenydd:

*'...mae'n eithriadol anodd, os nad yn amhosib, cyfyngu'r gwasanaeth prawf i gyfres o ofynion cytundebol'; ....daeth diffygion sylweddol yn y system yn fwyfwy amlwg'; a 'bydd bron yn amhosib delio â'r problemau hyn os bydd y rhan fwyaf o'r gwaith goruchwyliaeth prawf yn parhau i gael ei ddarparu dan gontract, gan wahanol sefydliadau'.*

Daeth y llywodraeth i gasgliad tebyg gan gyhoeddi y byddai'r contractau CRC yn dod i ben yn gynnar yn 2018. Ym mis Mai 2019 dywedodd y byddai'n dod â gwaith y cwmnïau CRC o reoli troseddwyr (sef y rhan fwyaf o'r gwariant) yn ôl i'r sector cyhoeddus erbyn diwedd 2020 gan ymrwymo i wneud i hyn ddigwydd gyntaf yng Nghymru o ddiwedd 2019 ymlaen.

Ers hynny mae buddsoddi'n ychwanegol mewn cwmnïau CRC wedi gwella'r sefyllfa. Ers Medi 2019 rydym wedi gallu cwblhau naw arolygiad i roi dyfarniad cyffredinol. Dyfarnwyd y gwasanaethau hyn i gyd fel 'Angen gwella' yn 2018/2019 – erbyn hyn dyfarnwyd tri fel 'Da'. Cafwyd fod goruchwylio gwaith di-dâl hefyd yn anfoddhaol, gydag wyth bellach wedi eu dyfarnu fel 'Da'.

Fodd bynnag, i rai gwasanaeth nid yw'r darlun mor addawol. Mewn pum ardal rydym wedi parhau i weld gwasgu ar gyllidebau, staff dan bwysau a llwythi achosion annerbyniol o uchel, gan arwain yn anochel at oruchwyliaeth o ansawdd gwaelach. Dyfarnwyd pum cwmni CRC fel 'Anfoddhaol' am ansawdd eu gwaith rheoli troseddwyr dydd i ddydd, yn erbyn ein holl safonau.

Daeth newid disymwth gyda Covid-19, gyda rhai gwasanaethau fel gwaith di-dâl yn dod i ben yn llwyr a thargedau a chosbau arferol y cwmnïau CRC yn cael eu gohirio. Yn wyneb yr ansicrwydd cynyddol am y dyfodol, cyhoeddodd y llywodraeth ym Mehefin 2020 y byddai'n rhoi'r gorau i'w chynlluniau i barhau i roi gwaith di-dâl, rhaglenni achrededig ac ymyriadau eraill ar gontract allanol i 'bartneriaid darparu prawf' ac y byddai'r pethau hyn hefyd yn dod yn ôl i'r sector cyhoeddus o fis Mehefin 2021 ymlaen.

Hoffwn ailddatgan fy marn na fydd y math yma o ddiwygio strwythurol, ar ei ben ei hun, yn gwella perfformiad dros nos. Rhaid cael adnoddau ychwanegol hefyd. Mae dyfodol y gwasanaeth prawf yn dibynnu ar gael ei ariannu'n iawn. Ni fydd ansawdd goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn gwella dim ond drwy symud llwythi o achosion o'r cwmnïau CRC yn ôl i'r NPS y flwyddyn nesaf. Rhaid llenwi'r swyddi Swyddogion Prawf gwag a hyfforddi staff yn iawn yn eu cyfrifoldebau newydd. Ni allwn golli'r arloesi da gan y cwmnïau CRC a rhaid rheoli'r cyfnod trosglwyddo'n ddeheuig.

## Yr NPS

Er i lawer o'r ffocws fod ar berfformiad y cwmnïau CRS yn y blynyddoedd diwethaf, wynebodd wasanaeth cyhoeddus yr NPS heriau sylweddol hefyd. Er i ni ddyfarnu pump allan o'r saith parth NPS fel 'Da' yn ein cylch cyntaf o arolygiadau yn erbyn ein safonau newydd, roedd gan bob parth o leiaf dwy safon ansawdd a ddyfarnwyd fel 'Angen gwella'. Rhoesom y dyfarniad hwn i bob un o'r saith parth yn erbyn ein safonau staffio, ac i chwech allan o'r saith am ansawdd eu cyfleusterau a'u gwasanaethau gwybodaeth.

Er i nifer swyddogion y gwasanaeth prawf (PSO) yn yr NPS gynyddu'n sylweddol ers 2014, mae nifer y swyddogion PO yn broblem o hyd gyda dros 650 o swyddi gwag ym mis Medi 2019 a phroblemau neilltuol yn Llundain ac yn Ne-Ddwyrain a Dwyrain Lloegr.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y llywodraeth i gynyddu nifer y staff swyddogion prawf dan hyfforddiant ac mae arwyddion bod hyn yn dwyn budd yn barod gyda nifer y swyddogion prawf i fyny o bron i 6% am y flwyddyn hyd at Fehefin 2020 a'r bwlch swyddi gwag yn cau i 483. Yn ôl ein hail-arolygiad o barth Gogledd-Orllewin Lloegr yr NPS yn Ionawr a Chwefror 2020, mae hyn yn dechrau gwneud gwahaniaeth mawr ar y ddaear. Cawsom fod 153 o swyddogion prawf newydd dan hyfforddiant wedi eu recriwtio ynghyd â thîm staffio llawn ar ôl cyfnod hir o brinder staff – er roedd yn bryderus gweld bod gan 32% ohonynt lwythi gwaith dros 110% eu lefelau disgwyliedig.

Mae lle swyddfa, a hosteli prawf yn y gymuned, o ansawdd gwael hefyd yn broblem yn yr NPS gyda llawer o staff prawf yn gweithio allan o adeiladau mewn cyflwr gwael ac unedau gwelyau mewn hosteli'n cael eu colli oherwydd oedi gyda gwaith trwsio sylfaenol. Yn 2019 dim ond 43% o'r gwaith rheoli cyfleusterau a gwblhawyd o fewn y targed 10 diwrnod. Er enghraifft, wrth ail-ymweld â pharth Gogledd-Orllewin Lloegr, roedd 700 o archebion gwaith heb eu cwblhau.

## Diogelu'r cyhoedd

Dro ar ôl tro, rydym yn canfod fod rhai o'r tasgau sylfaenol o reoli risg yn effeithiol wedi eu colli, fel yr archwiliadau y dylai pob swyddog cyfrifol fod yn eu rhedeg drwy dîm cam-drin domestig eu heddlu lleol pan fydd yr asesiad cychwynnol yn cael ei wneud. Ar gyfartaledd, nid oedd yr archwiliadau hyn yn cael eu gwneud mewn dros un o bob tri achos. Yn ôl ein harolygiad ar-y-cyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub o Reoli Troseddwyr yn Integredig – a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020 – cawsom fod y trefniadau addawol hyn wedi eu hisraddio i gysgod o'u blaenoriaeth flaenorol.

Nid oes angen i mi ddweud beth allai canlyniadau trychinebus peidio â rheoli'r risg o niwed yn iawn fod, ond gall yr effaith ar ddioddefwyr a'u teuluoedd fod yn anadferadwy. Nid yw'n iawn mai'r unig adeg y mae'r cyhoedd yn clywed am y gwasanaeth prawf yw pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Gwelwn ddiffyg chwilfrydedd proffesiynol, dosbarthu risg yn anghywir, rhannu gwybodaeth yn wael â'r carchardai a'r heddlu, asesiadau gor-optimistaidd o gynnydd, a llacio mesurau rheoli cyn pryd i gyd dro ar ôl tro yn yr achosion yr edrychwn arnynt yn ein harolygiadau lleol. Ar ôl adolygu achos Joseph McCann, cafwyd bod yr holl broblemau hyn wedi cyfuno i greu catalog o ddiffygion – nid lleiaf bod wyth cyfle wedi'i golli i ddiddymu ei ddedfryd amhenodol am drwydded diogelu'r cyhoedd rhwng 2017-2019. Mae llawer o'n ffocws eleni wedi bod ar y gwersi pwysig y gallwn eu dysgu pan fydd pethau'n mynd o'i le mewn achosion o'r fath. Felly rwy'n croesawu penderfyniad yr Arglwydd Ganghellor i roi rôl i Arolygiaeth Prawf EM i sicrhau ansawdd adolygiadau SFO yn annibynnol o fis Ebrill 2021 ymlaen. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllaw ymarfer effeithiol ar gynnal yr adolygiadau hyn sy'n seiliedig ar wersi a ddysgwyd o arolygu ymarfer cenedlaethol ar ddiwedd 2019. Mae hyn i gyd yn rhan o'n hymrwymiad ehangach a newydd i roi cyngor ar draws y bwrdd ar beth sy'n gweithio'n dda.

## Casgliadau

Er nad yw'n wir dweud bod y gwasanaeth prawf yn gyffredinol mewn, neu wedi bod mewn, 'argyfwng', mae'r diwygiadau *Trawsnewid Adsefydlu* heb os wedi rhoi cryn straen arno ynghyd ag effeithiau dwfn Covid-19 yn gynharach eleni, er i'r gwasanaeth lwyddo i ymateb gydag ymroddiad ac yn ganmoliaethus iawn i'r her.

O'r gwasanaethau y bu'n bosib i ni eu harolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd yn galonogol gweld arwyddion bod pethau'n gwella mewn rhai, ynghyd â'r cynnydd real iawn a welsom o ganlyniad i wella'r gwasanaethau Drwy'r Gât.

Fodd bynnag, i eraill mae pethau'n anoddach. Mae arweinwyr ymroddedig yn gwneud eu gorau i annog staff a gwella'r darparu ond, yn aml iawn, mae'r frwydr yn ofer wrth i adnoddau leihau. Mae risg wirioneddol i ddarparu dros y chwe mis nesaf wrth i'r sylw gael ei droi at drosglwyddo i'r strwythurau newydd ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf.

Nid yw'r model unedig newydd o reoli troseddwyr yn ateb i bob dim. Rhaid cael digon o adnoddau ac ni allwn chwaith golli'r arloesi mewn rhai ardaloedd a ddaeth yn sgîl *Trawsnewid Adsefydlu*. Mae arweinwyr CRC wedi mwynhau'r rhyddid i roi cynnig ar bethau newydd; symud i swyddfeydd iawn am y tro cyntaf neu weithio allan o hybiau cymunedol; a datblygu meddalwedd rheoli achosion gwell. Felly mae defnyddwyr gwasanaeth heb os wedi elwa o ymrwymiad gwirioneddol llawer o gwmnïau CRC i wrando ar eu barn, gan hyd yn oed roi rôl fel mentoriaid iddynt, ac yna fel staff cyflogedig – canlyniad y gall unrhyw wasanaeth ymfalchïo ynddo.

Bydd adferiad y gwasanaethau prawf yn siwrne hir a throellog gyda heriau anferth yn parhau yn y dyfodol. Ond gyda'r adnoddau a'r arweinyddiaeth iawn, gellir ei reoli'n

llwyddiannus a byddwn yn rhoi barn annibynnol a di-duedd am y cynnydd hwnnw bob cam o'r ffordd.

# 3. Effaith Covid-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith ddigyffelyb ar bob rhan o gymdeithas fodern; mae'r effaith economaidd a chymdeithasol yn cyflwyno heriau na welsom erioed o'r blaen.

Fel gyda phob gwasanaeth cyhoeddus, bu'n rhaid i ddarparwyr prawf ymateb i'r heriau hyn yn ddi-oed a chwarae eu rhan mewn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Edrychodd ein hadolygiad thematig ar bum cwmni CRC a chwe pharth NPS a sut yr oeddent yn darparu ar sail eu 'modelau darparu eithriadol' rhwng diwedd Mawrth a Gorffennaf 2020.[9]

Dylid canmol y darparwyr prawf am eu tosturi a'u proffesiynoldeb yn newid eu dulliau o weithio mor sydyn ac effeithiol. Mae hyn yn wir ar bob lefel yn y gwasanaeth prawf. Bu'n rhaid ail-ddyfeisio'r darparu i gydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar bellhau cymdeithasol ond gan gadw'r prif ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae cyswllt ag unigolion dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf wedi digwydd yn bennaf o bell dros y ffôn ac wedi bod yn gymesur â'r risg a'r angen a aseswyd. Cawsom fod y gwaith o reoli unrhyw risg daer o achosi niwed ar y cyfan yn dda. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod y ffocws mwy ar reoli risg yn effeithiol wedi miniogi eu hymarfer a gwelsom fwy o gyfranogi mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth rhithiol y bu'n rhaid eu cynnal yn lle trafod achosion wyneb yn wyneb. Fodd bynnag nid oes gan yr holl staff ac asiantaethau sy'n gweithio ym maes diogelu a gwarchod y cyhoedd fynediad at yr un dechnoleg ddigidol. Dylid datrys y broblem hon ar fyrder fel bo'r holl bartneriaid yn gallu ymgysylltu'n gyfartal.

Effaith y cyfnod clo cyntaf oedd lleihau nifer y gwasanaethau cymorth y mae prawf yn dibynnu arnynt, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol. Gwelsom arloesi addawol wrth weithio gyda a chynorthwyo unigolion ag anghenion cymhleth ond roedd y bobl fwyaf bregus wedi dirywio yn eu lles emosiynol. Roedd defnyddwyr gwasanaeth gydag amgylchiadau personol cymharol sefydlog cyn y cyfnod clo wedi addasu'n dda i'r trefniadau goruchwylio newydd. Fodd bynnag, teimlai eraill yn unig a digyswllt gan orboeni am eu dyfodol – nid oedd cyswllt o bell ynddo'i hun yn ddigon i ateb eu hanghenion. Roedd atebion tai 'syth bin' yn dda oherwydd y gwaith partneriaeth effeithiol a'r cyllid ychwanegol gan y llywodraeth i atal digartrefedd. Bydd angen i lety mwy parhaol gael ei ddarparu'n dilyn aros yn y tai dros dro hyn ac mae pryder mawr bellach ymhlith darparwyr prawf y bydd y tai argyfwng presennol yn diflannu.

Teimlai'r rhan fwyaf o staff fod ganddynt gefnogaeth a'u bod yn cael cyswllt rheolaidd ag arweinwyr a rheolwyr a bod dulliau iach o gymorth rhwng cydweithwyr wedi eu sefydlu i greu teimlad o agosatrwydd. Roedd rhai sefydliadau'n rhoi grantiau caledi i staff, gyda staff yn cymryd rhan mewn digwyddiadau rhithiol i godi arian i elusennau. Nid oedd gweithio o gartref yn siwtio pawb. Roedd rhai gyda lle dynodedig i weithio, a chymorth ehangach gan deulu, yn ymdopi'n dda. Ond roedd eraill yn ei chael yn anodd cydbwyso dysgu plant, gofalu am berthnasau bregus, ymdopi â pherthnasoedd personol cymhleth a darparu gwasanaethau prawf.

Ar y cyfan roedd y canfyddiadau'n galonogol ond mae rhai gwersi pwysig i'w dysgu. Bydd angen i ddarparwyr prawf gydweithredu ag eraill yn y system cyfiawnder troseddol i atgyfnerthu'r pethau a weithiodd yn dda a delio'n strategol â'r ôl-waith sylweddol sydd wedi hel, gan gynnwys rhaglenni achrededig, gwaith di-dâl a gorfodaeth.

[9] Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (2020). Exceptional Delivery Model Arrangements in Probation Services in Response to the Covid-19 Pandemic.

# 4. Effaith *Trawsnewid Adsefydlu*

## Sut y perfformiodd y cwmnïau CRC?

Fel rhan o'n harolygiadau o gwmnïau CRC, ers dechrau *Trawsnewid Adsefydlu* rydym wedi casglu tystiolaeth o'r pethau sydd angen gwella a hefyd wedi adnabod yr arferion arloesol a welsom ar draws y cwmnïau CRC mewn gwahanol berchnogaeth.

Cafwyd darlun cymysg dros y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom rai arwyddion o adferiad o flwyddyn i flwyddyn ar draws y 10 CRC a arolygwyd yn 2019/2020 – mae tri dyfarniad 'Da' yn brawf o hyn – ond mae pryder gwirioneddol am eraill. Mae bylchau'n agor rhwng darparwyr fel bod gennym bellach wasanaeth dwy-haen gan gwmnïau CRC. Mae rhai – fel Sodexo, Management Training Corporation (MTC) ac Achieving Real Change in Communities Community Interest Company (ARCC) – yn gwella ac yn parhau i fuddsoddi. Mae eraill – fel Reducing Reoffending Partnership (RRP) ac Interserve (Purple Futures) – yn dangos effaith barhaus y toriadau cyllid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi arolygu dau gwmni CRC RRP a phedwar CRC Interserve (Purple Futures). Dyfarnwyd pump allan o'r chwech yn 'Anfoddhaol' yn erbyn ein pedwar maen prawf goruchwylio achosion.[10]

Yn fwy cadarnhaol, dyfarnwyd wyth allan o'r 10 CRC fel 'Rhagorol' ar wasanaethau Drwy'r Gât. Mae'r gwelliannau i'r gwasanaethau Drwy'r Gât a fu'n bosib gyda'r £22m o fuddsoddiad ychwanegol y flwyddyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael effaith nodedig. Rydym hefyd wedi parhau i ddyfarnu cwmnïau CRC yn dda ar oruchwylio gwaith di-dâl a'r ystod o wasanaethau a gynigir ganddynt, a'r cyfleusterau i staff.

Rydym yn parhau i adrodd ar yr ymarfer arloesol gan rai cwmnïau CRC fel yr hybiau cymunedol lleol a'r ymrwymiad i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Mae llawer o gwmnïau CRC wedi cofleidio'r hyblygrwydd a gynigiwyd iddynt drwy ffyrdd newydd o weithio. Anogwn fod yr arferion arloesol hyn yn parhau yn y trefniadau newydd ac unedig ym mis Mehefin 2021. Mae llawer i'w ddysgu o ymarfer y cwmnïau CRC.

### Modelau gweithredu CRC

Ers gosod y contractau CRC yn Chwefror 2015, mae nifer y cwmnïau sy'n berchen ar gwmnïau CRC wedi lleihau o wyth i saith (aeth Working Links i ddwylo'r gweinyddwyr yn Chwefror 2019).

Trosglwyddodd y gwaith o reoli troseddwyr yng Nghymru i'r NPS yn Rhagfyr 2019. Yn Lloegr, mae'r saith cwmni wedi parhau i reoli dros hanner y boblogaeth droseddwyr yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys rhai sy'n cyflwyno risg isel neu ganolig o achosi niwed difrifol i eraill. Maen nhw hefyd wedi darparu ymyriadau i leihau aildroseddu; gwaith di-dâl a gwasanaethau Drwy'r Gât i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu goruchwylio gan ddarparwyr preifat a chyhoeddus.

Mae'r saith cwmni hyn[11] yn gweithio mewn nifer o wahanol ffyrdd, gyda modelau darparu o amrywiol effeithlonrwydd a haeddiant. Mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, disgrifiwn y cynnydd a wnaeth rai cwmnïau CRC gyda gwella ansawdd eu gwasanaethau. Yn y fan hyn,

---

[10] Gellir gweld tabl graddfeydd Arolygiaeth Prawf EM yn: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/ratings-tables.

[11] ARCC, Interserve (Purple Futures), MTC, People Plus, Reducing Reoffending Partnership (RRP), Seetec a Sodexo Justice Services.

tynnwn sylw at agweddau ar y gwahanol fodelau CRC sy'n dangos addewid yn ein barn ni ac y dylid eu cadw mewn unrhyw fodel prawf yn y dyfodol, yn ogystal â rhai agweddau ar y modelau gweithredu lle'r oedd gennym fwy o bryderon amdanynt.

**Beth sydd ddim yn gweithio cystal?**

## Trefniadau staffio

Mae dull y cwmnïau CRC o ymdrin â'r ffiniau rôl rhwng ymarferwyr, a dyranu gwaith a chyfrifoldebau, yn amrywio yn ôl modelau gweithredu'r cwmnïau sy'n berchen arnynt. Gwelodd y rhan fwyaf leihad yn nifer y swyddogion PO a chynnydd cyfatebol yn nifer y swyddogion PSO dros gyfnod y contractau CRC. Er enghraifft bu'n rhaid i Interserve (Purple Futures) ac RRP addasu eu modelau gweithredu, a'u cymarebau staffio, yng ngoleuni toriadau cyllid. Ar y llaw arall mae People Plus wedi cadw cymhareb uwch o staff PO i staff PSO o'i gymharu â chwmnïau CRC eraill. Yn ail flwyddyn ein rhaglen arolygu craidd yn 2019/2020, dywedodd llai o swyddogion cyfrifol yn y cwmnïau CRC oedd yn cael eu rhedeg gan Interserve (Purple Futures) ac RRP fod achosion wedi eu dyrannu iddynt lle'r oedd ganddynt yr hyfforddiant a'r profiad priodol ar eu cyfer, o'i gymharu â staff yn gweithio mewn cwmnïau CRC eraill. Ar y llaw arall, roedd bron i 90% o staff cwmnïau CRC Sodexo yn teimlo bod yr achosion cywir wedi eu dyrannu iddynt.

## Trefniadau gweinyddol

Roedd rhai cwmnïau CRC wedi mabwysiadu dull canolog o weinyddu gan ddefnyddio canolfannau galwadau, yn aml mewn rhan wahanol o'r wlad, a gydag amrywiol lwyddiant. Daw trefniadau o'r fath ag effeithlonrwydd adnoddau ond ar draul cael staff sy'n gyfarwydd â'r ardal leol a'r gwasanaethau sydd ar gael. Er bod trefniadau canolog yn gweithio'n eithaf da ar gyfer nifer o agweddau gweinyddol, gan gynnwys gwaith papur tor-gorchymyn, maen nhw'n llai effeithiol gyda dyrannu achosion i swyddogion cyfrifol o bell; gwelsom hyn yn glir o nifer yr achosion wedi eu dyrannu sydd yna'n cael eu newid wedyn. Rheolir gorchmynion gwaith di-dâl (fel gofyniad unigol)[12] yn ganolog mewn rhai cwmnïau CRC (er enghraifft, rhai sy'n cael eu rhedeg gan Purple Futures ac eraill[13]); fodd bynnag, mae'r gwasanaeth cwsmeriaid a roddir i rai gyda gorchymyn gwaith di-dâl fel hyn yn tueddu i fod yn wael, yn ein barn ni ac ym marn llawer o'r defnyddwyr gwasanaeth.

Mae cwmnïau CRC eraill wedi cadw trefniadau gweinyddol mwy lleol gydag achosion yn cael eu dyrannu gan reolwyr canol. Mae'r dull hwn yn caniatáu trosolwg gwell a phroses fwy gwybodus o reoli llwythi gwaith; gall rheolwyr ddylanwadu ar ymarfer, cynnig cyfleoedd datblygu i staff a pharu defnyddwyr gwasanaeth â sgiliau'r staff.

Y dull delfrydol efallai fyddai cyfuno effeithlonrwydd y dull canolog ar gyfer agweddau ar waith prosesu (apwyntiadau er enghraifft), gyda mewnbwn gan reolwyr canol lleol i'r tasgau hynny lle mae angen barn fwy ystyriol, fel ar gyfer dyrannu achosion.

---

[12] Gall gwaith di-dâl fod naill ai'n un gofyniad o orchymyn cymunedol neu ddedfryd ohiriedig (y cyfeirir ato'n aml fel standalone) neu'n un o ddau ofyniad neu fwy (y cyfeirir atynt yn aml fel gorchymyn aml-ofyniad). Er enghraifft, yn y CRCs hynny a weithredir gan Purple Futures.

[13] Er enghraifft, mewn CRCs sy'n eiddo i MTC, People Plus, RRP and Sodexo Justice Services.

## Beth a weithiodd yn dda mewn cwmnïau CRC?

### Hybiau cymunedol

Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth risg is, mae rhai cwmnïau CRC wedi ceisio ehangu'r ystod o leoliadau lle cynhelir apwyntiadau prawf i gynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a neuaddau eglwysi. Mae'r hybiau cymunedol hyn yn rhan annatod o fodelau darparu CRC i amrywiol raddau.

Maen nhw'n nodwedd amlwg o fodelau gan ARCC, Interserve (Purple Futures) a Seetec gan ddarparu'r prif leoliad i gael cyswllt â defnyddwyr gwasanaeth. Mewn ardaloedd eraill mae swyddfeydd prawf mwy traddodiadol yn gyffredin, er bod y rhan fwyaf yn fodern a chynllun agored sy'n creu amgylchedd mwy croesawus – ond a achosodd rai pryderon ynghylch preifatrwydd i ni.

Ni ellir rheoli pob defnyddiwr gwasanaeth yn ddiogel mewn hỳb. Mae angen swyddfeydd prawf o hyd er mwyn gallu rheoli unigolion sy'n cyflwyno risg uwch o niwed, ac i ddarparu rhai ymyriadau. Gall hybiau cymunedol ategu'r ddarpariaeth drwy fod yn fan cychwyn ar gyfer ymatal mwy hirdymor rhag troseddu, drwy wella ymdeimlad y defnyddiwr gwasanaeth o berthyn i'w cymuned. Yn ôl ein harolygiadau a'n hymchwil, mae hybiau cymunedol fwyaf effeithiol os ydynt yn[14]:

- Hawdd eu cyrraedd, gan estyn allan at ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu cymunedau eu hunain (naill ai wedi eu lleoli'n ganolog neu gyda chysylltiadau trafnidiaeth da).
- Yn cynnig amgylchedd croesawus anfeirniadol lle cafodd y defnyddwyr gwasanaeth efallai law yn eu dylunio.
- Yn hyrwyddo diwylliant tîm positif, gydag asiantaethau eraill ar gael i roi mynediad amserol at ystod eang o wasanaethau'n ymwneud ag anghenion troseddu.

### Offer dadansoddi

Roeddem yn edmygus o ddulliau rhai cwmnïau CRC o ddadansoddi data eu defnyddwyr gwasanaeth, fel drwy ddefnyddio'r offeryn data aildroseddu – wedi ei ddatblygu ac sy'n cael ei ddefnyddio gan RRP yn eu dau gwmni CRC ac a ddefnyddir bellach gan eraill hefyd, er enghraifft yn y pum CRC sy'n cael eu rhedeg gan Interserve (Purple Futures). Gellir ei ddefnyddio i weld data o sawl gwahanol bersbectif. Arweiniodd at ffyrdd da o adnabod a thargedu cohortau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n debygol iawn o aildroseddu, ac i weithio â phartneriaid i ateb anghenion.

Er enghraifft, roedd cwmnïau CRC Derbyshire, Leicestershire, Nottinghamshire a Rutland wedi dadansoddi anghenion tai heb eu cwrdd yn Derbyshire. Roedd hyn yn ategu'r achos busnes dros y prosiect Star yn Derbyn sydd, mewn partneriaeth â'r YMCA a Derby Homes (un o is-gwmnïau Cyngor Dinas Derby) yn rhoi llety cymorth i ddynion ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Yn yr un modd mae'r prosiect Advance yng Nghaerlŷr yn darparu llety i rai ag anghenion iechyd meddwl.

Mae cwmnïau CRC Caint, Surrey a Sussex (KSS) gan Seetec hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o ddata am anghenion troseddu i ddylanwadu ar yr agenda bartneriaeth a llenwi'r bylchau gwasanaeth yn llwythi achosion y cwmnïau CRC a'r NPS. Er enghraifft, cafodd ddata llety ei ddadansoddi a'i gyflwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn Surrey yn 2018; arweiniodd hyn at gyd-ariannu prosiect tai cymorth. Dylai defnyddio'r math yma o ddata i

[14] HM Inspectorate of Probation. (2020). Research & Analysis Bulletin: *The role of community hubs in helping to deliver probation services and support desistance.*

wneud penderfyniadau comisiynu cadarn fod yn rhywbeth i'w gadw yn y model prawf newydd.

### Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth

Mae gan nifer o gwmnïau CRC gynghorau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Rheolir y grwpiau hyn yn aml gan User Voice,[15] elusen wedi'i sefydlu ac sy'n cael ei rhedeg gan bobl a fu yn y carchar ac ar brawf. Gan amlaf fforymau ymgynghori ydyn nhw, gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a rheolwyr eraill yn mynychu fel arfer. Gall y cynghorau hyn gael cryn ddylanwad felly ar gyflwyno newid. Gwelsom enghreifftiau o newid yr amgylchedd ffisegol a'r dulliau o gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth. Mae ffocws gwell ar iechyd meddwl a lles defnyddwyr gwasanaeth, yn uniongyrchol o ganlyniad i waith y cynghorau. Mewn rhai ardaloedd fel Northumbria gwelsom y cyngor defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gyd-ariannu gan y CRC a pharth Gogledd-Ddwyrain Lloegr yr NPS. Mae hyn i'w groesawu o gofio y byddwn yn symud tuag at sefydlu model unedig o ddarparu gwasanaeth ym Mehefin 2021.

Penderfynodd rai cwmnïau CRC wneud mwy fyth i wrando ar lais defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, mae cynnwys defnyddwyr presennol a blaenorol ym model gweithredu RRP yn dangos y gwerth a ychwanegir o wneud hyn.[16] Anogir a chynorthwyir defnyddwyr gwasanaeth i ddod yn fentoriaid ar ei gilydd, i gyfrannu at ddarparu ymyriadau a gwasanaethau (gan gynnwys cynorthwyo'r broses gynefino a chyd-ddarparu rhaglenni di-achrededig) gan weithiau lwyddo i gael swyddi cyflogedig gyda RRP. Lle mae gan staff "brofiad byw", mae'n cael ei ddathlu a'i werthfawrogi. Mae cwmnïau CRC eraill[17] yn cyflogi cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth, ond ar raddfa lai ac o dan y radar.

## Perfformiad yr NPS

Rhwng Gorffennaf 2018 a Mai 2019, arolygodd Arolygiaeth Prawf EM saith o barthau'r NPS a chanfod sawl ymarfer da ond hefyd lle i wella.

Aseswyd bod pob parth 'Angen gwella' yn erbyn ein safonau staffio a chwech allan o saith am eu cyfleusterau a'u gwasanaethau gwybodaeth. Oherwydd bod y ddau faes gwaith yn dibynnu'n arbennig ar y cymorth a roddir i barthau lleol gan bencadlys canolog Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), yn ein barn ni roedd yn bwysig edrych ar gymorth a gwasanaethau a roddir i barthau gan y canol. Rydym wedi cynnal 'wythfed arolygiad NPS' o'r swyddogaethau canolog hyn a gyhoeddwyd yn Ionawr 2020.[18]

Ni arolygwyd yn erbyn y safonau i gyd gan ganolbwyntio ar y meysydd lle'r oedd anawsterau yn ein harolygiadau parthol.

Er i'n harolygiad ganfod agweddau pwysig ar berfformiad da gan yr NPS, gan gynnwys arweinwyr da'n buddsoddi mwy mewn hyfforddiant i staff PO newydd, a fframwaith goruchwyliaeth newydd ar gyfer rheolwyr llinell, nid oedd manteision posib cael dull canolog, er enghraifft gyda rheoli cyfleusterau, wedi'i wireddu'n llawn.

Roedd y meysydd ag anawsterau'n cynnwys: recriwtio a hyfforddi, gyda dros 650 o swyddi PO gwag yn yr NPS erbyn hydref 2019; problemau gyda phrosesau adnoddau dynol; diffyg cymorth canolog i ddadansoddi proffiliau troseddwyr lleol ar gyfer comisiynu ymyriadau; a chynnal a chadw gwael o adeiladau'r NPS. Disgrifiodd staff NPS y swyddogaethau canolog fel

---

[15] User Voice – www.uservoice.org
[16] HM Inspectorate of Probation. (2019). Research & Analysis Bulletin: Service User Involvement in the Review and Improvement of Probation Services.
[17] Er enghraifft, Merseyside CRC (Interserve/Purple Futures).
[18] HM Inspectorate of Probation. (2020). An Inspection of Central Functions Supporting the National Probation Service.

rhai pell a gor-fiwrocrataidd a dywedodd gyfarwyddwyr y parthau wrthym eu bod yn aml yn rhwystredig na allent ddatrys materion fel rheoli cyfleusterau, er bod ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am berfformiad eu parth.

Mae tan-fuddsoddi yn adeiladau'r NPS wedi golygu bod llawer o staff prawf yn gweithio allan o adeiladau mewn cyflwr gwael a chafwyd problemau ers tro gyda'r contractau rheoli cyfleusterau a reolir yn ganolog gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn y flwyddyn ddiwethaf dim ond 43% o waith rheoli cyfleusterau a gwblhawyd o fewn y targed 10 diwrnod. Rydym yn cydnabod bod pethau'n gwella ond mae'r oedi cyn datrys problemau cyfleusterau'n dal i fod yn annerbyniol. Wrth ddychwelyd i barth Gogledd-Orllewin Lloegr yr NPS ar ddechrau 2020, er enghraifft, cafwyd bod 700 o archebion gwaith heb eu cwblhau, a 235 ohonynt wedi eu dyrchafu fwy nag unwaith.

Wrth arolygu'r gwasanaethau canolog, gwnaed 24 argymhelliad i HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud â deall anghenion yr NPS, recriwtio staff, cynrychiolaeth, llwythi gwaith, hyfforddiant, comisiynu gwasanaethau a chynnal a chadw gwael o adeiladau'r NPS.

# 5. Staffio a llwythi gwaith

Yn ein dadansoddiad o arolygiadau 2018/2019 (Arolygiaeth Prawf EM 2019), roeddem yn barnu bod y rhan fwyaf o swyddogion cyfrifol wedi peidio â derbyn bod eu llwythi gwaith yn rhesymol ar ôl dros 50 o achosion. Yn ogystal, yn achos y swyddogion cyfrifol gyda 50 neu fwy o achosion, barnodd ein harolygwyr fod eu gwaith yn sylweddol waeth mewn naw allan o'n 12 dyfarniad cryno ar draws y prif agweddau ar waith prawf o asesu, cynllunio dedfryd, darparu ymyriadau ac adolygu achosion.

Roedd y bwlch ansawdd gyda gwaith diogelu'r cyhoedd yn bryder arbennig.

Mae'r adborth gan staff rheng flaen yn dangos effaith negyddol y llwythi trwm ar eu gwaith, fel y gwelwn o'r ymateb arolwg hwn:

*"Fel tîm gallwn gynnig gwasanaeth go lew o foddhaol, ond nid gwasanaeth da".*

(Swyddog Gwasanaeth Prawf, CRC)

Rydym wrthi'n gwneud ymchwil i lwythi gwaith a llwythi achosion, gwaith a ohiriwyd adeg y cyfnod clo cyntaf ond sydd bellach wedi ail-ddechrau. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ddechrau 2021. Mae ein hymchwil hyd yma (wele isod) yn cefnogi'r canfyddiad allweddol bod llwyth o fwy na 50 o achosion yn andwyol i ansawdd y gwaith ac felly i ddiogelu'r cyhoedd (Atodiad 1, Ffigwr 1).

### Cwmnïau CRC: llwyth gwaith a'i effaith ar ansawdd

Mae rolau a chyfrifoldebau'r swyddogion cyfrifol yn amrywio'n sylweddol ar draws y cwmnïau CRC. Effeithir arnynt gan:


- nodweddion, anghenion troseddu a phroffiliau risg o niwed y defnyddwyr gwasanaeth
- sgiliau, profiad, argaeledd a chyfrifoldebau eraill yr ymarferydd
- mynediad at wasanaethau craidd lleol.

Nid yw nifer yr achosion a reolir gan bob ymarferydd, felly, yn llwyr adlewyrchu llwyth gwaith unigolyn. Er enghraifft dylai fod gan swyddogion PO newydd gymhwyso, a dan hyfforddiant, lwythi gwaith llai (a warchodir) i hwyluso dysgu a goruchwylio. Mae gan rai swyddogion cyfrifol lwythi achosion llai i adlewyrchu eu dyletswyddau ychwanegol. Efallai bod gan staff ag anableddau, neu sy'n adfer o salwch, lwythi gwaith a warchodir. Mae'n bwysig bod offeryn rheoli llwythi gwaith yn gallu ystyried argaeledd a gallu'r ymarferydd, y math o achosion sy'n cael eu rhoi iddynt, a'r gwaith sy'n ofynnol i oruchwylio proffil eu llwyth gwaith yn briodol. Mae angen pwysoli achosion cymhleth wrth ddefnyddio unrhyw offeryn rheoli llwyth gwaith.

O'r cwmnïau CRC a arolygwyd ers Medi 2019, dim ond 45% o'r swyddogion cyfrifol a ddywedodd nad oedd eu llwythi achosion yn rhy drwm, gyda chyfran y swyddogion PO a PSO a ddywedodd fod eu llwythi gwaith yn rhy drwm wedi cynyddu ers 2018/19 (ffigwr 1). Mae'n bryderus bod 15% o swyddogion cyfrifol yn dweud bod ganddynt lwythi achosion o dros 75. Mae llwythi achosion uchel yn effeithio ar ansawdd y gwaith: yn yr amgylchiadau hyn, mae'r ymarfer yn symud tuag at 'gydymffurfio â phrosesau' ac i ffwrdd o ansawdd, gan adael staff heb ddigon o amser i fyfyrio ar eu gwaith. Yn draddodiadol mae ymarfer gwasanaethau prawf wedi cydnabod, unwaith y mae llwythi achosion yn mynd dros 40 ei bod yn dod yn anodd i ymarferwyr gofio unigolion a thalu sylw iawn i anghenion yr achos;

mae'r ffocws yn symud at gwblhau tasgau a chydymffurfio â phrosesau, heb gapasiti wedyn i fyfyrio a dadansoddi. Gobeithiwn daflu mwy o olau ar y mater yn ein cyhoeddiad ymchwil maes o law.

**Ffigwr 1: Canran y staff Swyddogion Prawf a Swyddogion y Gwasanaeth Prawf gyda llwythi achosion rhy drwm.** [19]




## NPS

Mae'r gyfradd uchel o swyddi gwag ar gyfer staff prawf rheng flaen yn thema gyffredin yn ein harolygiadau NPS ers dechrau'r rhaglen *Trawsnewid Adsefydlu* yn 2015.

Mae'r adborth gan staff rheng flaen yn dangos effaith negyddol y llwythi trwm ar eu gwaith, fel y gwelwn o'r ymateb arolwg hwn:

*"Mae'n anodd ymdopi â lefel y gwaith, gallwch wneud y pethau sylfaenol ond nid oes amser i fanylu o gwbl. Dim amser i fyfyrio nac ar gyfer chwilfrydedd proffesiynol".*

(Swyddog Prawf, NPS).

Fel rhan o'n harolygiad annibynnol o achos Joseph McCann, er enghraifft, cawsom fod y gwaith o asesu a rheoli ei achos ar ôl 2015 a hyd nes ei ryddhau'n derfynol o'r carchar yng ngwanwyn 2019 wedi dangos ymarfer prawf gwael, yng nghyd-destun lefel uchel o swyddi wag a llwythi gwaith trwm gan y rheolwyr troseddwyr oedd yn gyfrifol am yr achos[20]. Roedd McCann yn cael ei reoli gan dîm ansefydlog yn NPS Hertfordshire oedd yn brin o ymarferwyr profiadol a medrus. Yn 2020, ar draws uned darparu lleol Hertfordshire, arhosodd lefel y swyddi gwag ar gyfer rheolwyr troseddwyr wedi cymhwyso ar 20% (6.3 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE), er cyflogi pum rheolwr troseddwyr asiantaeth. Mae'n dangos bod y prinder staff dybryd a'r hyfforddiant annigonol yn risg wirioneddol i ddiogelwch y cyhoedd.

Roedd yn galonogol canfod fel rhan o'n harolygiad diweddaraf o barth Gogledd-Orllewin Lloegr yr NPS ar ddechrau 2020, bod cynnydd yn cael ei wneud i geisio ateb y prinder staff. Yn yr arolygiad blaenorol cafwyd bod gan y parth hwn brinder staff dybryd (20%) ac yn

[19] Yn seiliedig ar y 10 CRC a arolygwyd yn y ddau 2018/2019 and 2019/2020 .
[20] HM Inspectorate of Probation Independent review of the case of Joseph McCann.

enwedig prinder swyddogion PO. Mae Gogledd-Orllewin Lloegr wedi lleihau nifer ei swyddi gwag yn y 12 mis diwethaf, sy'n dipyn o gamp, a bellach gyda chyflenwad staffio llawn ar bob lefel. Mae wedi recriwtio dros 153 o bobl fel ymarferwyr Cymhwyster Prawf Proffesiynol, fydd yn llenwi swyddi gwag yn y dyfodol ar ôl cymhwyso. (Er hynny cawsom fod gan ormod o swyddogion PO lwythi gwaith trwm o hyd yng Ngogledd-Orllewin Lloegr; roedd gan 32% lwythi gwaith o dros 110%, o'i fesur gan offeryn mesur llwythi gwaith yr NPS).

Dengys ffigurau HMPPS fod y sefyllfa hefyd yn gwella'n genedlaethol, gyda 3,613 o staff PO FTE band 4 mewn swydd (hyd at 30 Mehefin 2020). Mae'r ffigur yn gynnydd o 196 (5.7%) ers 30 Mehefin 2019. Yn ogystal â swyddogion PO band 4, roedd 2,546 o staff PSO FTE band 3 mewn swydd: cynnydd o 60 (2.4%) ers 30 Mehefin 2019.

Rydym yn falch iawn hefyd bod y llywodraeth wedi cyhoeddi ymrwymiad i recriwtio o leiaf mil yn fwy o swyddogion PO eleni'n unig, er y bydd y rheidrwydd i'w hyfforddi'n golygu bod y galw ar staff profiadol yn cynyddu yn y tymor byr er mwyn gallu mentora a dirprwyo ar gyfer llwythi gwaith llai'r staff newydd. Gallai staff CRC yn trosglwyddo i'r strwythur unedig newydd hefyd effeithio ar hyn oherwydd bydd angen hyfforddiant arnynt i reoli achosion risg uwch cyn derbyn llwyth achosion llawn. Mae cynllun y llywodraeth i recriwtio 20,000 yn fwy o blismyn dros y tair blynedd nesaf a dros 10,000 o leoedd ychwanegol mewn carchardai'n debygol o gynyddu llwyth gwaith y gwasanaeth prawf yn y dyfodol.

Un o ganfyddiadau arolygu'r parthau a'r swyddogaeth ganolog oedd, unwaith i staff gael eu recriwtio bod diffyg buddsoddiad wedyn yn eu hyfforddiant a'u datblygiad, gyda llawer ohono'n anfoddhaol i gwrdd ag anghenion y staff hyn. Mae angen mwy o gymorth ar staff newydd gymhwyso i ennill hyder a sgiliau i oruchwylio troseddwyr cymhleth gyda risg uchel o achosi niwed. Nid yw ansawdd yr hyfforddiant bob amser wedi'i anelu at y lefel iawn i ymarferwyr prawf ac nid yw'r dull o ddarparu'r hyfforddiant bob tro'n briodol. Barn staff prawf yw bod e-ddysgu'n rhy sylfaenol, bod rhai o'r lleoliadau'n rhy bell i ffwrdd i rai staff deithio iddynt ac nid yw rhai staff yn cael eu rhyddhau i gwblhau hyfforddiant oherwydd eu llwythi gwaith trwm.

Nid yw tîm hyfforddiant cenedlaethol yr NPS yn cwrdd ag anghenion datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn foddhaol, yn enwedig staff PO. Roeddem yn arbennig o bryderus am y diffyg annerbyniol o hyfforddiant gorfodol oedd ar gael. Er enghraifft, dim ond 58% o staff parth Gogledd-Orllewin Lloegr yr NPS oedd wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant a cham-drin domestig. Mae gan y tîm hyfforddiant cenedlaethol broblemau adnoddau sylweddol. Dylai fod ganddynt 25 o staff FTE ond dim ond wyth oedd mewn swydd pan gynhaliwyd ein harolygiad o barth Gogledd-Orllewin Lloegr yr NPS ar ddechrau 2020. Mae hyn yn cyfyngu ar nifer y cyrsiau hyfforddi. Mae'r galw'n fwy na'r cyflenwad a'r rhestri aros yn hir.

Wrth gyfuno cyfrifoldebau'r NPS a'r cwmnïau CRC yn un gwasanaeth prawf cyhoeddus newydd cenedlaethol, mae cyfle pwysig i wella'r gwasanaeth i unigolion dan oruchwyliaeth prawf ac amddiffyn y cyhoedd yn well rhag troseddwyr peryglus. Gellir ond gwireddu'r cyfleoedd hyn os rhoddir sylw i fethiannau'r blynyddoedd diwethaf. Yn benodol mae angen i lefelau staffio gynyddu, rhaid lleihau llwythi gwaith unigolion a dylai anghenion hyfforddiant arfogi staff i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae hyn yn debygol o gymryd blynyddoedd a bydd angen buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau rhaglen i ddod â'r gwasanaeth newydd at ei gilydd, yn ogystal â mewn adnoddau i recriwtio, cadw a hyfforddi staff.

## Ffiniau rôl, y gymhareb swyddogion PO / PSO, a'r effaith ar ansawdd

### Swyddogion PSO newydd eu recriwtio

Mae'r dull o raddio a dyrannu gwaith i staff PSO yn amrywio a gall fod yn gymhleth. Roedd cwmnïau CRC ARCC, MTC a Sodexo yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod staff PSO newydd yn cwblhau hyfforddiant craidd ac ennill digon o brofiad cyn i achosion cymhleth gael eu dyrannu iddynt.

Oherwydd y lleihad mewn incwm ar draws holl wasanaethau Interserve (Purple Futures), penderfynwyd torri'n ôl ar wariant drwy ailstrwythuro'r sefydliad ar ddechrau 2019. Fodd bynnag, mae'r model gweithredu newydd hwn yn seiliedig ar ragdybiaeth bod y gweithlu'n brofiadol a medrus. Yn CRC Hampshire ac Ynys Wyth, ni wnaeth yr ailstrwythuro ystyried y prinder staff medrus yn ddigonol na'r amser oedd ei angen i recriwtio, hyfforddi ac atgyfnerthu hyfforddiant rheolwyr achosion staff PSO a datblygu sgiliau'r rheolwyr achosion presennol i reoli gwaith cymhleth, gan gynnwys achosion cam-drin domestig. Cawsom fod nifer y staff PO medrus i lawr o 38% ers ein harolygiad diwethaf.  Er bod nifer y rheolwyr achosion ar raddfa is (staff cyfwerth â PSO) i fyny'n sylweddol, roedd 45% yn newydd i'r gwasanaeth pan gynhaliwyd ein harolygiad.

### Ansawdd gwaith achosion staff PO a PSO

Gyda'r hyfforddiant a'r cymorth iawn ac o ddyrannu'r nifer iawn o achosion iddynt, ac ar y lefel risg iawn, gall staff PSO oruchwylio troseddwyr risg is, a rhai risg ganolig, yn bur dda. Fodd bynnag, fel y dengys enghraifft CRC Hampshire ac Ynys Wyth, pan ofynnir i staff PSO dibrofiad gyda llwythi achosion mawr ddelio ag achosion cymhleth sydd y tu hwnt i'w cymhwysedd, yn lle staff PO mwy cymwys a phrofiadol, gall arwain at leihad pryderus yn ansawdd yr oruchwyliaeth.

Dengys ein canlyniadau cyfunol o arolygiadau'r CRC ac NPS fwlch sylweddol rhwng ein dyfarniad o ansawdd yr oruchwyliaeth a wneir gan staff PO a staff PSO – rhywbeth a ddylai gael sylw blaenoriaeth wrth i'r gwasanaeth symud at y model newydd unedig yn 2021.

**Tabl 1: Ansawdd y gwaith a wneir gan staff PO o'i gymharu â staff PSO**

| | Dyfarniadau cyfunol o ddadansoddi'r sampl achosion | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CRC blwyddyn 1 | | CRC blwyddyn 2 | | NPS blynyddoedd 1 a 2 | |
| | Staff PO | Staff PSO | Staff PO | Staff PSO | Staff PO | Staff PSO |
| **Asesu** | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Anfoddhaol | Da | Da |
| **Cynllunio** | Angen gwella | Anfoddhaol | Angen gwella | Anfoddhaol | Da | Angen gwella |
| **Darparu** | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Da | Angen gwella |
| **Adolygu** | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Angen gwella | Angen gwella |

# 6. Cadw pobl yn ddiogel

Mae cadw pobl yn ddiogel yn un o'r disgwyliadau sylfaenol ac yn nod craidd i waith prawf. Gwneir hyn drwy asesu a rheoli'r risg o niwed a gyflwynir gan unigolion i'r cyhoedd ac i ddioddefwyr hysbys a dioddefwyr posib yn y dyfodol.

Mae ein ffocws a'n disgwyliadau o ran diogelu'r cyhoedd yn ymwneud ag unrhyw risg o niwed, nid dim ond niwed difrifol[21]. Rydym yn disgwyl gweld asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, ac adolygu ymarfer sy'n rhoi sylw i bob elfen o'r risg o niwed a gyflwynir gan ddefnyddiwr gwasanaeth, nid dim ond y rhai sy'n awgrymu niwed difrifol. Dylai ymarferwyr ystyried a rhoi sylw i'r niwed posib y gallai ymddygiad a gweithredoedd niweidiol ei gael ar bobl eraill a rhoi cynlluniau yn eu lle, a chydlynu ymyriadau, i atal niwed difrifol rhag digwydd.

Ar y cyfan mae'r ymarfer i gadw pobl yn ddiogel ar draws yr holl gwmnïau CRC a arolygwyd eleni'n parhau i fod yn anfoddhaol, gyda llai na hanner yr achosion yn foddhaol ar dri allan o'r pedwar cwestiwn allweddol a ofynnwn ar risg o niwed.

**Tabl 2: Cyfran yr achosion CRC a farnwyd i fod yn foddhaol o ran cadw pobl yn ddiogel**

| | **Yr holl gwmnïau CRC 2018/2019** | **Yr holl gwmnïau CRC 2019/2020[22]** |
|---|---|---|
| A yw'r asesu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | **55%** | **51%** |
| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | **46%** | **45%** |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaeth yn cynorthwyo'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **41%** | **43%** |
| A yw'r adolygu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **44%** | **43%** |

Er bod yr ymarfer yn bryderus o hyd, mae nifer fach o gwmnïau CRC wedi gwneud cynnydd o'i gymharu â'n canfyddiadau yn 2018/2019. Er nad yw'n foddhaol ar y cyfan, mae cwmnïau CRC Durham a Tees Valley, Northumbria, South Yorkshire, a'r Thames Valley wedi gwneud gwelliannau clir i'r rhan fwyaf o'u harferion diogelu'r cyhoedd, er yn amlwg bod llawer mwy eto i'w wneud. Dengys Tabl 3 yn Atodiad 1 lle y gwnaed y cynnydd hwn.

O ran ansawdd yr oruchwyliaeth, gwelsom ddarparu dwy-haen gan gwmnïau CRC yn yr ail flwyddyn. O'r rhai a arolygwyd hyd yma, ni lwyddodd cwmnïau CRC RRP ac Interserve (Purple Futures) i wella safon eu goruchwyliaeth achosion, ac yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar faes gwaith dau, mae'r ymarfer wedi dirywio.

[21] Mae offeryn asesu risg OASys yn diffinio "niwed difrifol" fel: "digwyddiad sy'n peryglu bywyd a / neu drawmatig ac y gellir disgwyl iddo adferiad, boed yn gorfforol neu'n seicolegol, fod yn" anodd neu amhosibl ".

[22] Dim ond 10 CRC sydd wedi cael eu harchwilio hyd yma yn 2020 oherwydd pandemig Covid-19.

Roedd yn arbennig o siomedig gweld dirywiad siarp yn ansawdd y goruchwylio achosion yn CRC Hampshire ac Ynys Wyth, yr unig CRC i gael ei ddyfarnu fel 'Da' yn arolygiadau y llynedd. Daethom i'r casgliad fod y dirywiad hwn yn ymwneud â diffyg ymarferwyr digon hyfforddedig a phrofiadol yn y cwmni, a staff mwy profiadol gyda llwythi achosion trwm, oedd yn amharu ar eu capasiti i ddarparu gwaith o'r ansawdd sy'n ofynnol.

**Lefel risg o niwed ac ansawdd yr ymarfer i gadw pobl yn ddiogel**

Yn adroddiad blynyddol 2018, a chrynodeb y llynedd o ganfyddiadau arolygu, fe wnaethom dynnu sylw at y bwlch rhwng ymarfer yr NPS a'r cwmnïau CRC o ran cadw pobl yn ddiogel. O'r holl agweddau'n ymwneud ag ansawdd yr oruchwyliaeth, roedd y bwlch rhwng yr NPS yr NPS a'r cwmnïau CRC i'w weld amlycaf ar y mater hwn, gyda'r cwmnïau CRC yn sgorio hyd at 25 pwynt canran yn llai na'r NPS ar y pedwar cwestiwn ar ddiogelu'r cyhoedd.

Asesir y mwyafrif llethol o achosion NPS fel rhai â risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a gellir dadlau felly bod hyn yn denu mwy o graffu, adnoddau a rheolaeth aml-asiantaeth. Yn yr un modd, gan gwmnïau CRC y mae'r rhan fwyaf o achosion risg isel neu ganolig o niwed difrifol. Dylai gwaith i reoli a lleihau'r risg o niwed ystyried yr holl risgiau posib, beth bynnag yw lefel eu difrifoldeb, ac mae'n hanfodol bod y dosbarthiad risg cywir yn cael ei ddyrannu i bob achos gan yr NPS a'r cwmnïau CRC. Mewn dros 300 o achosion a aseswyd gan ein harolygwyr, er enghraifft, barnwyd y dylai risg 'ganolig' o niwed yn hytrach nag 'isel' fod wedi cael ei ddyrannu.

Fel y gwelwn yn Nhabl 3, ar sail ein data arolygu o 2018/2019, mae achosion risg uchel yn fwy tebygol o gael eu barnu fel boddhaol o'i gymharu ag achosion risg isel neu ganolig, p'un ai'r NPS neu'r cwmnïau CRC sy'n rheoli'r achosion risg isel neu ganolig. At y dyfodol, wrth symud at fodel unedig o ddarparu, dylid gweithio i gau'r bwlch hwn a sicrhau bod safon foddhaol o oruchwyliaeth yn cael ei darparu i bob defnyddiwr gwasanaeth, beth bynnag yw lefel eu risg.

**Tabl 3: Cyfran yr achosion a farnwyd i fod yn foddhaol yn yr NPS a'r holl gwmnïau CRC, yn ôl lefel y risg o niwed difrifol (2018/2019):**[23]

| | NPS – risg uchel o niwed difrifol | NPS – risg ganolig o niwed difrifol | CRC - risg ganolig o niwed difrifol | CRC – risg isel o niwed difrifol |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r asesu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 78% | 73% | 57% | 55% |
| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 73% | 68% | 51% | 12% |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaeth yn cynorthwyo'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 68% | 63% | 44% | 22% |
| A yw'r adolygu'n canolbwyntio ddigon ar | 64% | 60% | 47% | 38% |

[23] Cymerwyd y data hwn o'n harolygiadau o bob un o'r 21 CRC a phob un o'r 7 adran NPS yn 2018/19.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gadw pobl eraill yn ddiogel? | | | | |

## Gwaith aml-asiantaeth i gadw pobl yn ddiogel

Ni all y gwasanaethau prawf gadw’r cyhoedd yn ddiogel drwy weithio ar wahân i asiantaethau eraill. Mae angen i ymarferwyr ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd asiantaethau partner i asesu risg yn gywir, gweithredu cynlluniau a chydlynu ymyriadau addas.


Yn ein crynodeb o ganfyddiadau arolygu yn 2018/2019, tynnwn sylw at y gwahaniaeth yn ansawdd yr ymarfer aml-asiantaeth rhwng yr NPS a’r cwmnïau CRC ar lefel genedlaethol. Er wedi’i atgyfnerthu a’i gynorthwyo gan ei gyfrifoldebau o dan y Trefniadau Gwarchod Y Cyhoedd Amlasiantaethol (MAPPA), roedd yr NPS ar y cyfan yn fwy effeithiol yn cyfnewid gwybodaeth ag asiantaethau fel yr heddlu a’r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, i oleuo’r asesu, cynllunio, y darparu a’r adolygu. Roedd gwaith aml-asiantaeth ar draws y cwmnïau CRC yn llawer mwy anghyson ac wedi’i farnu fel anfoddhaol mewn tua hanner yr achosion a welsom.

Er ein bod ond wedi arolygu un parth NPS eleni, mae’r duedd hon wedi parhau yn rhaglen 2019/2020 gydag ymarfer aml-asiantaeth pob un o’r cwmnïau CRC i gadw pobl yn ddiogel yn cael ei ystyried hyd yma i fod yn anfoddhaol mewn tua hanner yr achosion. Ar y llaw arall mae parth Gogledd-Orllewin yr NPS wedi perfformio’n llawer gwell, fel y gwelwn o Dabl 4 yn Atodiad 1.

Mae’n arbennig o bwysig bod y gwasanaethau prawf yn ateb eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ac ymateb i gam-drin domestig. Ceisiwn fonitro hyn yn agos felly gan bwysleisio bod angen trefniadau rhannu gwybodaeth cadarn fel bod swyddogion cyfrifol yn derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau galw allan i gam-drin domestig a bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid â’r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant os bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyswllt rheolaidd â phlant.

O ran gwybodaeth am alw allan i ddigwyddiadau cam-drin domestig, a gwiriadau diogelu, dangosodd ein harolygiadau yn 2019/2020 ymarfer eithaf siomedig (Ffigwr 2) sydd i’w egluro gan gyfuniad o broblemau systematig ac yn ymwneud ag ymarfer mewn gwahanol rannau o’r wlad.

**Ffigwr 2: Yn ôl gwasanaeth, canran o wiriadau cam-drin domestig a wnaed**




Fel rhan o'n harolygiad o CRC Hampshire ac Ynys Wyth, er enghraifft, gwelsom nifer o achosion lle'r oedd asiantaethau wedi colli cyfle i reoli risg yn effeithiol oherwydd nad oedd yr heddlu wedi rhannu eu gwybodaeth. Ymddengys bod y llif gwybodaeth hwn wedi torri lawr ar ôl cyflwyno deddfwriaeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a newid cyfeiriad e-bost Interserve (Purple Futures) (i 'interservejustice.org'). Ymddengys bod yr heddlu'n ystyried nad oedd y cyfeiriad yn ddigon diogel i anfon data personol a sensitif drwyddo. Yn dilyn ein harolygiad, rydym yn deall bod y rhwystr hwn bellach wedi'i ddileu ac mae'r heddlu bellach yn rhannu'r wybodaeth.

Gwelsom ddarlun mwy cadarnhaol mewn ardaloedd eraill. Yn Thames Valley:

*"Mae gan y CRC berthynas dda â heddlu Thames Valley Police gan dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn ddyddiol am achosion arestio a galw allan i gam-drin domestig. Gall y swyddogion cyfrifol wedyn ofyn am wybodaeth bellach ac ystyried risgiau sy'n newid. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod gwybodaeth am risg o niwed yn cael ei derbyn gan yr heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant".*

Yn CRC Northumbria cawsom:

*"...yn y mwyafrif o achosion, roedd y gwiriadau perthnasol gyda'r heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi eu gwneud, naill ai yn y cam llys neu wedyn gan staff CRC".*

Yng nghwmnïau CRC Derbyshire, Nottinghamshire a Rutland, roedd hybiau diogelu aml-asiantaeth yn eu lle ym mhob un o'r siroedd hyn. Fodd bynnag, er bod y wybodaeth ar gael nid oedd swyddogion cyfrifol bob tro'n gweithredu arni pan oedd angen.

## Arolygiad thematig o adolygu Troseddau Pellach Difrifol

Troseddau Pellach Difrifol (SFO) yw troseddau treisgar neu rywiol difrifol a phenodol a gyflawnir gan unigolion dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. I'r dioddefwyr a'r teuluoedd, mae'r canlyniadau'n gwbl ddinistriol ac yn aml yn newid eu bywydau. Ers 2011 mae tua 0.2% o'r unigolion ar brawf wedi eu cyhuddo o droseddau SFO. Yn Ebrill 2018, cyflwynwyd proses ddiwygiedig o adolygu troseddau SFO er mwyn rhoi mwy o dryloywder i ddioddefwyr a chadw ffocws lleol a strategol ar ddysgu. Fe wnaethom benderfynu edrych yn fanylach ar weithrediad y trefniadau adolygu SFO newydd ar ddiwedd 2019,[24] gyda ffocws penodol ar sicrhau ansawdd, sut y mae dysgu'n cael ei adnabod, sut y mae ymarfer prawf yn cael ei wella, a phrofiad dioddefwyr a theuluoedd.

Rhaid i bob adolygiad edrych i weld a gymerwyd pob cam rhesymol i reoli'r risg o niwed gan unigolion i eraill, dadansoddi pam y gwnaed pethau mewn ffyrdd penodol ac adnabod beth allai neu ddylai fod wedi cael ei wneud yn wahanol. Dylai hefyd sefydlu a ddysgwyd gwersi ar lefelau lleol neu genedlaethol a nodi hyn yn glir.

Ymwelwyd ag wyth darparwr prawf, oedd yn nifer gyfartal o barthau'r NPS a chwmnïau CRC, yn ogystal â thîm adolygu SFO HMPPS, sy'n rhoi adborth ar ansawdd adolygiadau a chofnodi gwersi a ddysgir er mwyn gyrru gwelliannau. Cawsom hefyd nifer fach o gyfarfodydd â dioddefwyr ac aelodau teuluol oedd wedi derbyn datgeliadau o dan y broses adolygu SFO, a holi rheolwyr o'r heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Arolygwyd 46 o adolygiadau SFO a'r adborth sicrhau ansawdd a gawsom gan dîm adolygu SFO HMPPS.

Ein canfyddiad oedd nad oedd pwrpas yr adolygiadau SFO yn gyson ddealladwy ar draws y darparwyr prawf er bod y broses ddiwygiedig wedi gwella'r tryloywder i ddioddefwyr a theuluoedd, drwy roi mynediad at yr adolygiad a gwblhawyd. Fodd bynnag mae ffocws adolygiadau ar ymarfer yn aml, ac yn anodd eu dehongli. Ar y cyfan roedd dioddefwyr a theuluoedd yn ystyried y broses i fod yn agored a gonest am unrhyw fethiannau gyda'r ymarfer prawf, ac yn gwerthfawrogi'n arbennig gallu trafod yr achos ag uwch-reolwr.

Cafwyd mai timau adolygu SFO dynodedig ar wahân oedd y model gweithio gorau ar gyfer cynnal yr adolygiadau, ac roedd asesiadau tîm adolygu SFO canolog HMPPS o ansawdd yr adolygiadau lleol yn gyson â dyfarniadau ein tîm arolygu ni ein hunain. Roedd yr adolygiadau'n gryf ar ddadansoddi ymarfer prawf ond yn wannach ar ystyried rheolaeth aml-asiantaeth. Mewn tua 30% o'r adolygiadau, roedd angen gwella rhywfaint ar ddadansoddi ffactorau risg o niwed neu gynlluniau rheoli risg. Roedd 22% wedi methu â dyfarnu'n glir a gymerwyd pob cam rhesymol i reoli risg o niwed difrifol gan roi llawer mwy o ffocws ar 'beth ddigwyddodd' yn hytrach na pham.

Yn genedlaethol nid oes dadansoddiad systematig o ganfyddiadau adolygiadau SFO gyda'r un themâu'n aml yn codi mewn archwiliadau mewnol ac arolygiadau lleol gan Arolygiaeth Prawf EM. Roedd yr adolygiadau SFO hefyd ond yn canolbwyntio ar ymarfer prawf ac nid ar rôl asiantaethau eraill, fel bod cyfleoedd i asiantaethau eraill fel yr heddlu gael dysgu a gwella'n cael eu colli. Fe wnaethom nifer o argymhellion i roi sylw i'r materion hyn.

Yn dilyn yr adolygiad thematig hwn, fe wnaethom 15 o argymhellion (adran 3, atodiad 2). Derbyniwyd deg ohonynt, derbyniwyd tri'n rhannol a gwrthodwyd dau. Dyfeisiwyd yr argymhellion hyn – y rhan fwyaf i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021 – i gynnig atebion diymdroi a hirdymor i rai o'r pryderon a gododd yn sgîl ein canfyddiadau. Roeddent yn cynnwys bod angen sicrhau ansawdd annibynnol o gyfran o'r adolygiadau SFO a gwblheir bob blwyddyn ac rydym yn falch bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder wedi gofyn i'r Arolygiaeth gyflawni'r rôl feincnodi a sicrhau ansawdd annibynnol hon. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu

[24] HM Inspectorate of Probation. (2020). A Thematic Inspection of the Serious Further Offences (SFO) Investigation and Review Process.

dull o weithio fel y gallwn samplo detholiad o adolygiadau SFO i ategu gwaith a rôl tîm SFO HMPPS. Bydd yn dechrau yn Ebrill 2021 a bwriadwn gyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar ein canfyddiadau.

### Joseph McCann a'r adolygiad thematig o ymarfer a diwylliant galw'n ôl y gwasanaeth prawf

Ar 5 Mawrth 2020 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder y byddai Prif Arolygydd Prawf EM yn cynnal adolygiad annibynnol o achos Joseph McCann.

Byddai'r adolygiad mewn dwy ran. Roedd rhan un, a gyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2020, yn trafod goruchwyliaeth Joseph McCann gan yr NPS.[25] Roedd rhan dau, a gyhoeddwyd ar 10 Tachwedd 2020, yn adolygu ymarfer a diwylliant 'galw'n ôl' y gwasanaeth prawf.[26]

### Rhan un: Adolygiad Joseph McCann

Roedd Joseph McCann dan oruchwyliaeth yr NPS, ar ôl cael ei ryddhau ar drwydded o'r carchar, pan gyflawnodd gyfres o droseddau treisgar a rhywiol a arweiniodd at roi 33 dedfryd oes iddo ym mis Rhagfyr 2019. Archwiliwyd yr achos a'r polisïau'n fanwl gennym. Gallai a dylai McCann fod wedi cael ei alw'n ôl pan gafodd ei arestio am fwrgleriaeth ym mis Gorffennaf 2017 ac yntau'n dal ar drwydded Dedfryd Amhenodol i Ddiogelu'r Cyhoedd (IPP). Roedd staff prawf yn ymwybodol, ar wyth achlysur gwahanol, y gallai ei drwydded gael ei diddymu, ond wedi methu â gwneud hynny. Roedd y penderfyniad i beidio ei alw'n ôl i garchar wedi'i ddylanwadu gan weithdrefnau a pholisi cenedlaethol lle'r oedd angen ystyried opsiynau eraill bob tro cyn cymeradwyo galw'n ôl. Er ailfeddwl am beidio â galw McCann yn ôl, oherwydd y diffyg trosolwg gan reolwyr a'r methiant i adolygu'r penderfyniadau galw'n ôl, nid oedd ei alw'n ôl wedi'i weithredu.[27]

Roedd McCann yn hysbys i'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol ers blynyddoedd lawer ac roedd gwybodaeth amdano ar nifer o systemau cofnodion. Nid oedd yr asesiadau prawf wedi cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r holl ffynonellau gwybodaeth pwysig. Nid oedd system yr heddlu, y Gofrestr Troseddwyr Rhyw a Threisgar (ViSOR) yn ganolog i asesu potensial McCann fel troseddwr treisgar a rhywiol. Ni chafodd pryderon gan yr heddlu am ei ymddygiad rhywiol eu hadnabod. Ni chafodd ei ymddygiad yn y carchar, a'i batrwm ymddygiad hanesyddol, eu dadansoddi. Roedd ffocws yr asesiadau i'r Bwrdd Parôl ar gyfiawnhau ei ryddhau yn hytrach na diogelu'r cyhoedd. Ar ôl ei ryddhau yn Chwefror 2019, roedd McCann yn cael ei reoli ar MAPPA Lefel 2, ond o fewn 12 diwrnod fe'i symudwyd i Lefel 1. Er hynny roedd angen rheolaeth aml-asiantaeth ar MAPPA Lefel 2 i reoli ei risg uchel o achosi niwed difrifol.

Rhoddwyd pwyslais rhy fach ar ei sgiliau rhyngbersonol a'i ymddygiad dichellgar gyda staff. Ystyriwyd bod ei ymddygiad a'i iechyd meddwl yn y carchar wedi gwella, ar sail y ffordd a gyflwynai ei hun ar y pryd, ac felly ni wnaed unrhyw asesiadau iechyd meddwl pellach ar ôl 2014. O ganlyniad, ni aseswyd y ffactor risg bwysig flaenorol hon cyn ei ryddhau ac ni chafodd ei atgyfeirio at y llwybr anhwylder personoliaeth i droseddwyr, naill ai yn y carchar nac ar ôl ei ryddhau.

Nid oedd y cynllun rheoli risg oedd yn ei le pan ryddhawyd McCann yn 2019 yn ddigonol i reoli ei risg o achosi niwed difrifol. Dylai fod wedi cael ei roi mewn hostel brawf yn y gymuned ac ni ddylai fod wedi cael mynd i fyw gyda'i deulu. Roedd y ffaith nad oedd gwely i McCann ar ôl ei ryddhau'n golygu bod elfen allweddol o'r cynllun rheoli risg ar goll ac aeth yn ôl i fyw mewn llety oedd yn gwbl amhriodol.

[25] HM Inspectorate of Probation. (2020). Independent Review of the Case of Joseph McCann.
[26] HM Inspectorate of Probation (2020) A thematic review of probation recall culture and practice.

Roedd gan y tîm yn NPS Hertfordshire oedd yn gyfrifol am reoli McCann lwythi gwaith trwm, trosiant staff uchel ac yn dangos perfformiad diffygiol a throsolwg rheoli gwael. Roedd y pethau hyn i gyd yn ffactorau canolog yn y cynllunio gwael i'w ryddhau a'i reoli ar draws gwahanol barthau o dan drefniadau trosglwyddo achosion dros dro anfoddhaol. Hefyd, oherwydd dewis opsiynau yn lle galw'n ôl, a diffyg trosolwg gan reolwyr o'r penderfyniad ar alw'n ôl, roedd McCann wedi'i ryddhau o'r carchar yn awtomatig.

### Rhan dau: Adolygiad thematig o ymarfer a diwylliant galw'n ôl y gwasanaeth prawf

Mae'r pŵer i alw'n ôl i'r carchar yn un o'r penderfyniadau pwysicaf y gall ymarferwyr prawf ei wneud a gwnaed dros 27,000 ohonynt yn 2019/2020. Mae'r canlyniadau 'syth bin' i'r carcharwr a elwir yn ôl yn amlwg, ond mae gan y penderfyniad hefyd ganlyniadau i ddioddefwyr, darpar-ddioddefwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ni wnaeth yr adolygiad thematig hwn, diolch byth, ganfod unrhyw bryderon difrifol am y penderfyniadau galw'n ôl y tynnodd yr adolygiad o Joseph McCann sylw atynt. Yng ngwanwyn 2019, edrychasom ar yr ymarfer a'r diwylliant presennol ar alw'n ôl ers i McCann gyflawni'r troseddau SFO, gan arolygu sampl o 50 o unigolion ar drwydded o'r carchar a alwyd yn ôl neu a dderbyniodd rybudd rhwng Hydref 2019 a Chwefror 2020. Barnwyd fod staff prawf yn glir mai diogelu'r cyhoedd yw'r prif bryder wrth ystyried galw'n ôl ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn yr achosion a adolygwyd gennym.

**Penderfyniadau a throthwy galw'n ôl:** Mae diogelu'r cyhoedd a diogelu dioddefwyr yn ganolog i benderfyniadau prawf ar alw'n ôl. Roedd y staff gweithredol a holwyd yn glir mai hyn yw prif ffocws yr ymarfer galw'n ôl. Mae opsiynau yn lle galw'n ôl yn cael eu hystyried yn rheolaidd lle bo'n briodol, ond nid yw hyn yn amharu ar ffocws y penderfyniadau ar ddiogelu'r cyhoedd.

Mae ymarfer rhybudd ar drwydded[27] yn anghyson rhwng ac o fewn gwahanol sefydliadau. Mae anghysondebau o ran trothwy, cofnodi a rhoi rhybuddion. O'r herwydd mae'n anodd adnabod achosion lle rhybuddiwyd a lle na alwyd yr unigolyn yn ôl, a gweithredu prosesau sicrhau ansawdd effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion lle rhoddwyd rhybudd, galw'n ôl i'r carchar sy'n dal i ddigwydd yn y diwedd. Mae'n tanlinellu bod angen adolygu ymarfer a chael proses ddiwygiedig o rybuddio ar drwydded.

**Sicrhau ansawdd:** Mae cyfraddau galw'n ôl yn amrywio rhwng ac o fewn gwahanol sefydliadau. Nid yw'r amrywiad hwn yn dibynnu'n llwyr ar amgylchiadau'r achos unigol. Yn yr NPS mae'r parthau'n derbyn gwybodaeth am berfformiad pob chwarter. Mae hyn yn cynnwys nifer yr achosion galw'n ôl a'r rhesymau drostynt, ynghyd â nifer yr amrywiadau trwydded. Nid oes targedau perfformiad ar nifer yr achosion galw'n ôl ond noda'r adroddiad yr unedau darparu lleol lle mae'r gyfradd galw'n ôl yn gwyro'n sylweddol o'r cyfartalog cenedlaethol. Mae parthau NPS yn defnyddio'r wybodaeth yma i fonitro'r amrywiadau. Mae cwmnïau CRC yn casglu gwybodaeth am alw'n ôl fel rhan o fonitro gorfodaeth. Unwaith eto, nid oes targed perfformiad ar nifer yr achosion galw'n ôl ac nid yw sefydliadau'n monitro unrhyw fesurau a gymerir yn lle galw'n ôl. Fodd bynnag, mae cwmnïau CRC yn monitro cyfraddau galw'n ôl. Er enghraifft roedd un CRC wedi nodi cyfradd isel o alw'n ôl gan newid ei ymarfer o ganlyniad.

[27] Pan fethwyd â chydymffurfio â'r amodau a nodir ar drwydded ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa, rhoddir rhybudd trwydded i'r defnyddiwr gwasanaeth, a fydd yn nodi'r canlyniadau pe bai unrhyw ddiffyg cydymffurfio pellach yn digwydd.

**Diwylliant sefydliadol:** Mae gwahaniaethau pwysig mewn ymarfer a diwylliant galw'n ôl rhwng y cwmnïau CRC a pharthau'r NPS. Mae polisi cenedlaethol ac adolygu achosion difrifol proffil uchel yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ymarfer a diwylliant galw'n ôl. Yn y blynyddoedd diwethaf mae cred eang ymhlith staff gweithredol y dylid gwneud llai o alw'n ôl. Yn fwy diweddar, ofnir y bydd swyddogion cyfrifol yn cael eu beio'n annheg am unrhyw ganlyniadau niweidiol o ganlyniad i fethu â gofyn am alw'n ôl. Mae'r ddwy argraff yma'n tanseilio'r penderfyniadau proffesiynol a ddylai fod wrth galon y broses. Mae staff gweithredol yn deall y cydbwysedd cywir rhwng ystyried opsiynau yn lle carcharu a diogelu'r cyhoedd. I sicrhau nad yw staff gweithredol yn ofni mentro gormod, mae angen cael proses gyson o wneud penderfyniadau i alw'n ôl ac ar gyfer penderfyniadau i beidio â galw'n ôl. Mae datblygu diwylliant proffesiynol yn dibynnu ar staff gweithredol yn teimlo'n ffyddiog y cefnogir penderfyniadau proffesiynol gyda chyfiawnhad drostynt pe bai rhywbeth difrifol yn ymwneud ag unigolyn dan oruchwyliaeth yn digwydd.

**Yr Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) a'r broses yn dilyn galw'n ôl:** Mae'r berthynas rhwng y PPCS HMPPS canolog a darparwyr prawf yn gweithio'n effeithlon. Prosesir achosion galw'n ôl brys ac allan-o-oriau'n brydlon ac mae uwch-reolwyr a rheolwyr gweithredol yn rhoi ystyriaeth gredadwy i gyngor y PPCS ar y trothwy galw'n ôl.

Gan ddilyn proses alw'n ôl arferol, gall swyddogion cyfrifol a'r PPCS adolygu achosion a phenderfynu ail-ryddhau carcharor a alwyd yn ôl dan y cynllun rhyddhau gweithredol. Mae gweithrediad y cynllun rhyddhau gweithredol yn anghyson. Mae swyddogion cyfrifol yn ansicr sut y weithredu'r broses a nifer yr achosion rhyddhau'n amrywio rhwng darparwyr. Ni ddylai ystyried rhyddhau ddibynnu ar ba sefydliad y mae unigolyn yn cael ei oruchwylio ganddynt. Dylid adolygu gweinyddiaeth y broses a'i defnydd.

## Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM)

Yn achos y troseddwyr mwyaf cyson a photensial niweidiol, mae gwaith effeithiol ar-y-cyd rhwng prawf, yr heddlu ac asiantaethau eraill fel trin cyffuriau'n hanfodol os yw'r aildroseddu cyson hwn i gael sylw.

Yn 2019 cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EM, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) arolygiad thematig ar-y-cyd o IOM.[28]

Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020, yn disgrifio canfyddiadau siomedig a fawr ddim datblygiad o IOM ers yr arolygiad blaenorol yn 2014, a ddaeth cyn cwblhau rhaglen newid *Trawsnewid Adsefydlu* y gwasanaeth prawf. Bryd hynny roedd IOM yn elfen sylweddol o strategaeth y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i atal troseddu a lleihau aildroseddu. Nid yw mor amlwg bellach.

Roedd ein canfyddiadau yn 2014 yn addawol er canfod gwahanol lefelau o ymrwymiad i'r dull gan yr asiantaethau perthnasol yn y chwe ardal a arolygwyd. Fe ddywedasom fod IOM yn ddull synnwyr cyffredin sy'n teimlo'n iawn, ond bod diffyg tystiolaeth glir o'i effeithiolrwydd yn ei rwystro. Mae'n bryderus felly nad oes unrhyw ymateb wedi bod i'n hargymhelliad i werthuso costau a manteision IOM ar lefel genedlaethol. Er y cafwyd peth monitro perfformiad mewn rhai ardaloedd, nid oes dull o adrodd fel bo'r wybodaeth yma'n cael ei bwydo'n ôl i adrannau perthnasol y llywodraeth, nac i ledaenu'r dysgu a'r ymarfer gorau'n ehangach. Gwaetha'r modd, nid yw'r system o fesur effaith IOM a gyflwynodd y Swyddfa Gartref i heddluoedd yn cael ei gweithredu'n llawn, ac o hyd, dim ond 14 heddlu sy'n ei defnyddio. Felly byddai gwerthusiad cynhwysfawr yn darparu'r cyfeiriad sydd ei angen ar lefel leol a chenedlaethol fel ei gilydd.

[28] HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services. (2020). A Joint Thematic Inspection of Integrated Offender Management.

Ar y cyfan, siomedig oedd canfyddiadau'r arolygiad hwn yn 2019. Ychydig iawn o ddatblygu sydd wedi bod ar IOM ers 2014. Mewn sawl ardal, mae IOM wedi colli ei ffordd a gyda phroffil llawer is nag o'r blaen. Mae ehangu sgôp nifer o gynlluniau i gynnwys risg uchel o niwed, yn ogystal ag achosion troseddwyr cyson, wedi lleihau eglurder y ffocws ac nid yw staff wedi cael eu huwchsgilio fel y dylent fod i ddelio â'r gwahanol heriau a gyflwynir gan y math yma o droseddwr. Dim ond dau allan o'r 44 staff prawf a holwyd oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant IOM penodol ac nid oedd staff IOM yr heddlu wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Teimlai ychydig dros hanner y staff IOM prawf nad oedd eu llwythi gwaith yn rhy drwm.

Roedd gwasanaethau i'r cohort IOM hefyd yn anghyson. Dim ond mewn traean o'r achosion IOM a adolygwyd oedd cynlluniau'n disgrifio'n union beth oedd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth ei wneud o gael eu cynnwys yn y cynllun IOM. Llai na hanner y cohort hwn oedd yn derbyn y gwasanaethau cyffuriau neu alcohol oedd ei angen arnynt.

Ymddengys fod cydleoli'r heddlu a'r gwasanaethau prawf a chymorth yn llawn wedi peidio â bod, a dim ond un allan o'r saith safle i ni ymweld â nhw oedd â hyn yn ei le.  O ganlyniad pur anaml y mae darparu'n integredig yn digwydd. Mewn rhai ardaloedd, roedd rolau'r heddlu a phrawf wedi cymylu ac roedd yr heddlu'n gweithio mwy na'r gwasanaeth prawf ar ddarparu gwaith adsefydlu. Mae gwahanu prawf o dan *Trawsnewid Adsefydlu*, llai o blismyn, a thoriadau cyllid i'r rhan fwyaf o wasanaethau, wedi dal y darparu'n ôl. Mae angen mwy o waith i ddiogelu'r cyhoedd, yn enwedig.

Nid yw hyn i ddweud bod canfyddiadau'r arolygiad hwn i gyd yn negyddol. Mae arwyddion calonogol yn parhau bod gan IOM botensial i ddarparu ymyriadau o safon i'r unigolion sydd fwyaf eu hangen a gwelsom ymarfer effeithiol yn parhau mewn rhai o'r safleoedd i ni ymweld â nhw. Mae arwyddion y gall IOM fod yn effeithiol ar gyfer monitro a goruchwyliaeth agos, ac ar gyfer sicrhau gorfodaeth ddiymdroi. Ar sail dadansoddi 268 o achosion IOM a aseswyd fel rhan o'n harolygiadau prawf lleol arferol yn 2018/2019, roeddent 10 pwynt canran yn fwy tebygol o fod wedi cael eu goruchwylio'n foddhaol yn erbyn ein safonau allweddol ar asesu, cynllunio, darparu ac adolygu. Mae hyn yn dadlau'r achos ymhellach dros benderfynu pwy allai elwa fwyaf o'r dull aml-asiantaeth hwn.

Mae newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau prawf ar y gorwel. Bydd y model newydd yn dod â chyfle i ddatblygu IOM. Gallai mwy o blismyn greu potensial i roi proffil uwch i IOM ynghyd â mwy o gydweithrediad traws-asiantaeth i ddelio â nifer y troseddwyr sy'n debygol o ganfod eu ffordd i mewn i'r system. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i gynorthwyo gyda pharatoi am y newidiadau systemig hyn (adran 3, atodiad 2).

| **Meysydd ymarfer oedd yn gwella ansawdd cyflwyno IOM:** |
|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth clir yn rhoi eglurder pwrpas a chyfeiriad i staff, rheolwyr a phartneriaid. |
| Mae monitro a dadansoddi proffiliau, nodweddion ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd yn helpu i benderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen i gynorthwyo ymatal rhag troseddu a chadw pobl yn ddiogel. |
| Mae cydleoli / integreiddio partneriaid IOM craidd (CRC, NPS a'r heddlu) ac ehangach (camddefnyddio sylweddau, tai) mewn un adeilad yn hwyluso cyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac yn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i rai dan oruchwyliaeth IOM. |
| Wrth i'r holl asiantaethau IOM fod yn rhan o gyfarfodydd / paneli adolygu achosion gyda phwrpas a strwythur clir, gall y timau IOM ymateb yn well i anghenion / risg defnyddwyr gwasanaeth. |
| Mae dyrannu achosion i staff a thimau IOM arbenigol a hyfforddedig yn gwella hyder, y berthynas rhwng asiantaethau, ac ansawdd y goruchwylio achosion. |

Darllenwch ein canllaw ar ymarfer IOM effeithiol:
[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/effective-practice](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/effective-practice)

# 7. Lleihau aildroseddu ac ateb anghenion defnyddwyr gwasanaethau prawf

Mae lleihau aildroseddu gan unigolion dan oruchwyliaeth gorchymyn llys, neu'n dilyn eu rhyddhau ar amodau o'r carchar, yn rhesymeg gadarn dros fodolaeth y gwasanaethau prawf ym meddwl y cyhoedd a gwneuthurwyr polisi.

Mae tystiolaeth gref fod y gwasanaethau prawf yn gallu a llwyddo i annog unigolion a gafwyd yn euog o droseddau i ymatal rhag troseddu a byw bywydau gwell a mwy adeiladol. Mae'r gwasanaeth prawf yn gwneud y gwahaniaeth hwn drwy asesu anghenion a risg yr unigolyn yn awtomatig a chynllunio i ateb y pethau hyn gyda'r defnyddiwr gwasanaeth drwy ymyriadau ynghyd ag adolygu a diwygio'r cynllun wrth i'r oruchwyliaeth fynd yn ei blaen.

Mae Swyddogion Prawf effeithiol yn defnyddio ystod o sgiliau wrth oruchwylio i annog ac ysbrydoli'r unigolyn, er enghraifft modelu progymdeithasol, cyfweld ysgogiadol, sgiliau datrys problemau ac ymyriadau ymddygiad-gwybyddol. Creu perthynas dda, rhyw fath o 'gytundeb gweithio' rhwng y swyddog a'r defnyddiwr gwasanaeth, yw hanfod gwaith prawf effeithiol.

## Beth yw prif anghenion defnyddwyr gwasanaethau prawf?

Yn ein rhaglenni arolygu prawf yn 2018/2019 a 2019/2020 (n=4,548 o achosion unigol), roedd ein harolygwyr yn ystyried pa ffactorau troseddu oedd gan bob defnyddiwr gwasanaeth yn ein sampl achosion. Mae'r 'ddewislen' o'r ffactorau sy'n gallu hybu aildroseddu, sy'n seiliedig ar y gwaith ymchwil hirsefydlog sy'n ategu'r System Asesu Troseddwyr (OASys), ac a ddefnyddir gan holl wasanaethau prawf Cymru a Lloegr, fel a ganlyn:

- diffyg lle i fyw neu le sefydlog i fyw
- diffyg addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE)
- cymorth teuluol gwan a diffyg perthnasoedd positif
- ffactorau ffordd o fyw (gan gynnwys ffrindiau a chysylltiadau troseddol)
- camddefnyddio alcohol
- camddefnyddio cyffuriau
- meddwl ac ymddygiad amhriodol
- agweddau amhriodol at droseddu.

Dengys Ffigwr 3 ddadansoddiad o'r ffactorau hyn yn yr achosion a arolygwyd. Roedd y ffactorau mwyaf cyffredin yn ymwneud â 'meddwl ac ymddygiad (85%), 'ffordd o fyw' (54%) ac 'agweddau at droseddu' (49%). Gwyddom yn dda fod patrymau gwyrdroëdig a gwrthgymdeithasol o feddwl, fel diystyru effaith neu amddiffyn ymddygiad, yn gysylltiedig â thuedd i droseddu. Mae cysylltiadau a ffrindiau gwrthgymdeithasol yn cynnal ffyrdd troseddol o fyw. Mae methu rheoli emosiwn – bod yn fyrbwyll, blin neu ddal dig – hefyd yn ffactorau pwysig sy'n gysylltiedig â throseddu.

Mae camddefnyddio cyffuriau (48%) ac alcohol (40%) yn nodweddu ymddygiad defnyddwyr gwasanaeth prawf yn drwm. Mae cysylltiad cryf rhwng camddefnyddio alcohol a throseddu treisgar, gyda bron i hanner y dioddefwyr trais yn credu bod y drwgweithredwr dan

ddylanwad alcohol ar y pryd (Arolwg Troseddu yng Nghymru a Lloegr: 2014). Mae camddefnydd o gyffuriau'n fwy cysylltiedig â throseddau manteisgar (fel dwyn, lladrad neu fwrglera) i dalu am sylweddau anghyfreithlon. Mae cysylltiad cryfach rhwng troseddu a chamddefnyddio cyffuriau Dosbarth A (yn enwedig heroin a chocên) na chyffuriau 'hamdden' (fel canabis neu ecstasi). Yn ôl adolygiad annibynnol y Fonesig Carol Black (2020), mae camddefnyddio cyffuriau'n costio tua £19 biliwn i'r wlad pob blwyddyn, gyda defnyddwyr heroin a chrac cocên yn gyfrifol am y mwyafrif llethol (86%) o'r niwed cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyffuriau.[29]


Roedd llety – digartrefedd neu denantiaeth ansicr, neu dai anaddas – yn broblem gysylltiedig â throseddu gan un allan o bob pedwar defnyddiwr gwasanaeth yn ein sampl. Gallai data ein harolygiad fod yn rhoi amcan rhy isel o'r broblem. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) yn cyfeirio at ddata OASys sy'n nodi bod gan 37% o ferched a 32% o ddynion dan oruchwyliaeth broblemau'n ymwneud â llety. Yn ôl ymchwilwyr mae llety'n ffactor newidiol iawn, gyda llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn newid eu statws tai ar ôl yr asesiadau cychwynnol. Ar ben hynny, mae sefyllfaoedd llety gwaethygol yn arwydd cryf o aildroseddu cyffredinol a threisgar. Ar y llaw arall, mae llety sefydlog yn arwydd cryf o aros yn ddi-drosedd, yn enwedig o'i gyfuno â rhwydwaith teuluol cefnogol.

Roedd diffyg ETE i'w weld yn broblem gysylltiedig â throseddu dim ond i 12% o'n sampl. Mae'n debyg bod hyn yn amcan rhy isel oherwydd mae defnyddwyr gwasanaethau prawf sy'n fwy tebygol o fod ag anghenion ETE, fel rhai gyda gorchymyn gwaith di-dâl (yn unig) a dim goruchwyliaeth prawf arall, wedi eu heithrio o'n sampl. Canolbwyntiwn fwy ar achosion cymhleth a risg uwch gyda gwahanol fathau o anghenion sydd angen cael sylw'n gyntaf, cyn iddynt ddechrau chwilio am waith neu hyfforddiant. Yn ôl astudiaeth ddiweddar yn defnyddio data OASys, mae gan 62% o holl ddefnyddwyr gwasanaethau prawf anghenion ETE.

Mae anghenion ETE yn fwy parhaus nag anghenion eraill cysylltiedig â throseddu; er hynny, awgryma'r ymchwil fod ymyriadau ETE a dargedir yn effeithiol, fel cyrsiau 'paratoi am waith', hyfforddiant sgiliau meddal, cyfarwyddyd un-i-un a lleoliadau, yn gwneud unigolion 9% yn llai tebygol o aildroseddu ar gyfartaledd.

**Ffigwr 3[30] Ffactorau cysylltiedig â throseddu a nodwyd gan arolygwyr. Arolygiadau prawf 2018/2019 a 2019/2020**

[29] Black, C. (2020). *Review of Drugs: Phase One Report*. London: Home Office.
[30] Ffigurau yn seiliedig ar 4,548 o achosion unigol.





### Pa mor dda y mae'r gwasanaethau prawf yn ateb yr anghenion hyn?

Yn ôl arolygiadau 2018/2019 a 2019/2020, ar y cyfan roedd y gwasanaethau prawf wedi darparu gwasanaethau ac ymyriadau i roi sylw i ffactorau cysylltiedig â throseddu mewn dros hanner (55%) yr achosion.

Anghenion llety oedd y rhai mwyaf tebygol o gael eu cwrdd (58%) ond mae bwlch mawr o hyd yn y ddarpariaeth.

**Ffigwr 4 Ffactorau cysylltiedig â throseddu (nifer y defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion a'r gyfran lle cafodd ymyriad ei ddarparu)**




## Ymyriad cyffuriau ac alcohol

Ar gyfer unigolion gyda throseddau'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, mae gan y llys opsiwn o wneud triniaeth briodol yn rhan o'u dedfryd, drwy gynnwys gofyniad triniaeth gyffuriau neu alcohol. Yn rhy aml lle nodir bod camddefnyddio sylweddau'n gysylltiedig â throseddu, gwelsom fod gwasanaethau anfoddhaol yn cael eu darparu. Yn ôl canfyddiadau arolygu cyfunol ein 11 arolygiad yn 2019/2020, roedd gwasanaethau boddhaol wedi eu darparu dim ond mewn 42% o'r achosion lle'r oedd alcohol yn ffactor, ac mewn 41% lle'r oedd cyffuriau'n ffactor. Mae darparu gofynion triniaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar rannu gwybodaeth effeithiol a chyfathrebu amserol rhwng darparwyr prawf a'r asiantaethau camddefnyddio sylweddau. Yn rhy aml gwelwn nad yw hyn yn digwydd ac felly nad yw ymddygiad risg newydd yn cael ei asesu gan swyddogion cyfrifol. Mae'r achos canlynol, yn dilyn arolygiad CRC Derbyshire, Leicestershire, Nottinghamshire a Rutland, yn nodweddiadol:

*'Mae gan Alan hanes troseddu hirbarhaus sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Nid yw trefniadau gofynion adsefydlu cyffuriau (DRR) yn ddi-dor; yn ôl y swyddog cyfrifol bu'n rhaid swnian am wybodaeth fel canlyniadau profion cyffuriau, sy'n cael eu cyflenwi fel crynodeb mis yn hytrach na mewn amser real. Adroddir ei fod wedi cwblhau ei DRR yn llwyddiannus ond nid oes unrhyw wybodaeth am y gwaith a wnaed fel rhan o hyn'.*

Yn yr un CRC, dywedodd swyddog cyfrifol wrthym:

*'Mae Aquarius yn darparu gofynion triniaeth alcohol. Mae diffyg gwaith penodol a ffurfiol yn cael ei wneud â defnyddwyr gwasanaeth. Mae problemau hefyd gyda chyfathrebu; dylen nhw ebostio manylion presenoldeb yr unigolion i'r ganolfan gyswllt a ddylai yna ychwanegu'r manylion at nDelius o fewn 48 awr. Rwy'n cael gwybod ond nad ydynt yn mynychu, felly os na chlywaf ddim byd, rwy'n cymryd yn ganiataol eu bod yn mynychu. Ond wrth wirio cyn cwrdd â defnyddiwr gwasanaeth, rwy'n canfod yn aml na chafodd ddim ei ychwanegu ers wythnosau".*

## Lefelau anabledd ac anghenion iechyd

Roedd gan bron i hanner (47%) y defnyddwyr gwasanaeth a arolygwyd anabledd. Natur yr anabledd yn y mwyafrif llethol o'r achosion (77%) oedd salwch meddwl. Roeddem yn bryderus o ganfod mai dim ond 24 o'r unigolion yn ein sampl oedd â gofyniad triniaeth iechyd meddwl ynghlwm wrth eu gorchymyn llys. Rydym yn amau bod bwlch mawr mewn gofal i unigolion prawf gyda salwch meddwl. Rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi papur briff ymchwil yn nodi y gallai fod gan hyd at 39% o ddefnyddwyr prawf broblemau iechyd meddwl.[31]

Mae angen mwy o ymdrech i asesu a hwyluso triniaeth i ddefnyddwyr prawf gyda salwch meddwl a bydd arolygiad thematig ar-y-cyd rhwng yr holl arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn 2021 yn trafod y mater hwn yn fwy manwl, a pha mor ddigonol yw'r gwasanaethau. Rydym yn ffyddiog y bydd cyflwyno'r protocol gofynion triniaeth ar gyfer dedfrydau cymunedol yn dechrau cau'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth.

| Natur yr anabledd | Nifer yr achosion yn y sampl | Canran o ddefnyddwyr gwasanaeth ag anabledd (Dalier sylw: gallai fod ganddynt fwy nag un anabledd) |
|---|---|---|
| Yn ddall neu nam golwg | 37 | 2% |
| Yn fyddar neu nam clyw | 70 | 3% |
| Symudedd – e.e. yn cael trafferth cerdded pellteroedd byr neu ddringo'r grisiau | 321 | 15% |
| Problemau sgiliau llaw deheuig | 15 | 1% |
| Anabledd dysgu | 463 | 22% |
| Salwch meddwl | 1,622 | 77% |
| Nam lleferydd | 16 | 1% |
| Anabledd gwybyddol | 64 | 3% |
| Nam arall – e.e. cyflwr hirdymor neu waethygol, anffurfiad difrifol | 239 | 11% |

[31] C. and Brooker, C. (2020). *Academic Insights 2020/06: Maximising positive mental health outcomes for people under probation supervision*. Manchester, HMI Probation.

## Drwy'r Gât

I gynorthwyo newid ffordd o fyw er gwell ar ôl dod allan o'r carchar, rydym yn disgwyl gweld gwasanaethau Drwy'r Gât wedi eu personoli a'u cydlynu'n dda sy'n rhoi sylw i anghenion adsefydlu penodol pob defnyddiwr gwasanaeth.

Yn *Adroddiad y Prif Arolygydd Prawf* (2019), gwelsom rai gwelliannau gyda darparu gwasanaethau Drwy'r Gât. Roedd ein harolygiadau thematig blaenorol[32] wedi casglu nad oedd y gwasanaethau Drwy'r Gât yn gweithio fel y dylent fod, yn rhannol oherwydd diffyg cyllid:


'Yn rhy aml ni wnai'r cwmnïau CRC lawer mwy nag atgyfeirio at wasanaethau eraill a llenwi ffurflenni. Ers yr arolygiadau hyn, mae perfformiad Drwy'r Gât y cwmnïau CRC wedi gwella, er bod y ddarpariaeth yn amrywio ac mae cryn le i wella eto'.[33]

Mewn ymateb i argymhellion gan gyrff allanol a cheisiadau gan rai cwmnïau CRC, penderfynodd HMPPS gyhoeddi cyfres fwy manwl o ddisgwyliadau drwy'r fanyleb leiaf sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau Drwy'r Gât, a buddsoddi £22m y flwyddyn yn ychwanegol yn 2019/2020 a 2020/2021. Mae'r canllawiau newydd yn disgrifio'r gwasanaethau lleiaf sy'n ofynnol eu darparu drwy lwybrau adsefydlu, gyda phob llwybr wedi'i rannu'n dair lefel wasanaeth.

Ers lansio'r gwasanaeth diwygiedig yn Ebrill 2019, mae ein harolygiadau wedi canfod darlun llawer gwell. Mae'r cwmnïau CRC wedi cynyddu nifer staff y gwasanaethau Drwy'r Gât sydd, ar y cyfan, yn adrodd hyfforddiant o safon gan eu harfogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau. Mae gan staff carchardai fwy o fynediad at systemau rheoli achosion prawf mewn llawer o'r ardaloedd CRC fel bod cyfathrebu gwell rhwng y carchar a gweithwyr yn y gymuned. O'r 10 cwmni CRC a arolygwyd ym mlwyddyn dau, llwyddodd wyth i gael dyfarniad 'Rhagorol' am eu gwasanaethau Drwy'r Gât, gyda'r ddwy ardal arall wedi eu hasesu fel 'Da'. Ym mlwyddyn un, dyfarnwyd gwasanaethau Drwy'r Gât mewn pedwar cwmni CRC fel 'Anfoddhaol', 10 fel 'Angen gwella' a saith fel 'Da'. O'r cwmnïau CRC i ni ymweld â nhw ym mlwyddyn dau, llwyddodd bob un heblaw am un i gael dyfarniad gwell o'i gymharu â blwyddyn un.

Dengys Ffigwr 5 y data o'r tri chwestiwn allweddol a ddefnyddiwyd i asesu gwasanaethau Drwy'r Gât.

**Ffigwr 5: Asesiad o'r gwasanaethau Drwy'r Gât**




[32] HM Inspectorates of Probation and Prisons. (2016). An Inspection of Through the Gate Resettlement Services for Short-Term Prisoners; and HM Inspectorates of Probation and Prisons. (2017). An Inspection of Through the Gate Resettlement Services for Prisoners Serving 12 Months or More. Manchester: HMI Probation.
[33] HM Inspectorate of Probation. (2019). Report of the Chief Inspector of Probation.

Gwelsom enghreifftiau lu o unigolion yn elwa o gynlluniau adsefydlu manwl a weithredir yn dda ac sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w rhagolygon ar ôl eu rhyddhau.

**Enghraifft o ymarfer da –** CRC Humberside**,** Lincolnshire a North Yorkshire

Derbyniodd Alf ddedfryd o 10 mis o garchar am drosedd o godi helynt. Roedd ei anghenion adsefydlu wedi eu hasesu'n briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda mwy o gymorth yn cael ei gynnig mewn ymateb i newidiadau. Roedd ei gynlluniau llety wedi disgyn trwodd pan oedd yn y carchar a derbyniodd ddigon o gymorth. Cafodd yna ei ryddhau i lety cymorth, gyda chefnogaeth barhaus gan fentor Drwy'r Gât a fu'n ei gynorthwyo gyda chyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i ddod o hyd i lety hirdymor a sefydlog ar ei gyfer. Trefnwyd cyfrif banc hefyd a gwnaed apwyntiad iddo gyda'r ganolfan waith ar ôl ei ryddhau. Roedd y cynllun adsefydlu dan arweiniad y defnyddiwr gwasanaeth ac yn ystyried y risg iddo'i hun ac i eraill.

Fodd bynnag, dangosodd ein harolygiad thematig o lety, er y gwelliannau da yn y gwasanaethau, fod dod o hyd i lety priodol, sefydlog a hirdymor yn parhau i fod yn her fawr a bod angen gwneud mwy i wella'r sefyllfa:[34]

*'Nid yw ehangu gwasanaethau Drwy'r Gât wedi cael effaith sylweddol eto ar nifer yr unigolion sy'n dod o hyd i lety sefydlog. Mae'r broblem yn waeth i rai sy'n cael eu rhyddhau o garchardai di-adsefydlu neu bellach i ffwrdd, lle nad oes cysylltiadau cystal ag awdurdodau lleol a darparwyr ym mröydd cartref y carcharorion'.*

Yn ôl canfyddiadau cyfunol ein 10 arolygiad o gwmnïau CRC yn 2019/2020, roedd 47% o'r achosion yn ein samplau Drwy'r Gât wedi dychwelyd i'w hen lety am y noson gyntaf ar ôl gadael y carchar, roedd 5% yn mynd i lety parhaol newydd, roedd 22% yn mynd i lety dros dro newydd ac, ar gyfer 27%, nid oedd y trefniadau wedi eu cofnodi'n glir neu nid oedd llety wedi'i gofnodi ar eu cyfer. Mae'r dyfyniad canlynol o'n hadroddiad arolygu ar gyfer CRC Derbyshire, Leicestershire, Nottinghamshire a Rutland yn dangos rhai o'r anawsterau a wynebir:

*'Nid yw'r staff Drwy'r Gât yn ddarparwyr tai uniongyrchol ond roeddent yn gweithio'n ddychmygus i wella mynediad at lety addas. Er enghraifft roedd rheolwyr tai'r awdurdodau lleol yn cael eu gwahodd i garchar Nottingham i wella eu dealltwriaeth o broblemau carcharorion oedd ar fin cael eu rhyddhau. Mae'r CRC wedi cydweithredu ag YMCA a Derby Homes (is-gwmni i Derby City Council) i sefydlu cyfleusterau llety; mae'r cyfleusterau hyn yn darparu hyd at 13 o unedau llety am chwe mis ynghyd â chymorth i symud ymlaen. Yn Nottingham roedd cyngor y ddinas yn talu'r CRC i secondio gweithwyr carchardai i helpu cysgwyr ar y stryd, cyn eu rhyddhau, i ddod o hyd i lety cymorth. Roedd yn rhwystredig, er yr ymdrechion hyn, bod mynediad at lety sefydlog ar y pwynt rhyddhau'n parhau i fod allan o gyrraedd bron i hanner yr unigolion yn ein sampl a aseswyd i fod angen llety, gan ddangos yn glir bod yna ddiffyg cyflenwad i ateb y galw yn y gymuned'.*

Ar y pwynt hwn, nid yw dyfodol y gwasanaethau Drwy'r Gât yn glir; mae'r model gweithredu targed diweddaraf ar gyfer gwasanaethau prawf yn disgrifio y bydd cyfnod o drosglwyddo at fodel adsefydlu newydd fydd yn gwella'r cysylltiadau â charchardai ac yn gwella'r cynllunio cyn-rhyddhau, ond hyd at fis Hydref 2020 ni chawsom fanylion y trefniadau hyn. Awgryma ein canfyddiadau fod hwn yn faes gwaith sydd angen buddsoddi'n barhaus ynddo a chael

[34] HM Inspectorate of Probation. (2020). Accommodation and Support for Adult Offenders in the Community and on Release from Prison in England.

cydweithrediad aml-asiantaeth arno i ddarparu'r lefel o gymorth sydd ei angen i gynorthwyo unigolion sy'n dod allan o'r carchar i ymatal rhag troseddu.

## Arolygiad o'r llety a chymorth a roddir i droseddwyr (oedolion) yn y gymuned ac ar ôl eu rhyddhau o garchar yn Lloegr

Mae cael rhywle diogel i fyw a'i alw'n gartref yn un o anghenion sylfaenol bywyd. Heb hyn, mae'n anodd i'r gwasanaethau prawf reoli unigolion yn ddiogel na gwneud gwaith adsefydlu effeithiol. Mae llawer o bobl yn mynd i'r carchar yn ddigartref a mwy fyth yn gadael heb unlle i fyw. Nid yw'r gwelliannau i wasanaethau Drwy'r Gât wedi gwneud unrhyw wahaniaeth eto i'r nifer sy'n dod o hyd i lety sefydlog. O ganlyniad, mae'r rhai a ryddheir i fod yn ddigartref yn llawer mwy tebygol o aildroseddu a dychwelyd i'r carchar.

Cafodd o leiaf 22% o achosion NPS, sef yr unigolion gyda'r risg uchaf yn llwyth achosion prawf, eu rhyddhau o'r carchar heb gartref sefydlog yn 2018/2019 – yn cyfateb i 6,515 o unigolion. Dim ond 75% o'r unigolion dan oruchwyliaeth yr NPS oedd mewn llety sefydlog 12 mis ar ôl eu rhyddhau.

Arolygwyd sampl o 116 o unigolion a ryddhawyd o'r carchar a chanfod, 12 mis wedyn, bod 17% yn dal i fod yn ddigartref a 15% arall yn parhau i fod mewn llety ansefydlog. O'r rhai a ryddhawyd i lety sefydlog, roedd canran y rhai y cawsant eu galw'n ôl neu ail-ddedfrydu i garchar (35%) o fewn blwyddyn bron yn hanner y ganran oedd heb lety o'r fath pan gawsant eu rhyddhau (63%).

Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am dai a digartrefedd ac mae gan y gwasanaethau prawf ddyletswydd i'w hatgyfeirio at bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Cawsom nad oedd y rhan fwyaf o ymarferwyr prawf yn ymwybodol bod disgwyl iddynt ôl-ddilyn achosion atgyfeirio, ac ychydig oedd wedi gweld y cynllun tai personol a gynhyrchwyd gan yr awdurdod tai lleol. Ar hyn o bryd nid oes dull o dracio achosion atgyfeirio o'r gwasanaeth prawf i'r awdurdod lleol i ganfod pa mor effeithiol yw'r broses ar gyfer sicrhau canlyniadau llety. Gwelsom dystiolaeth o'r atgyfeiriadau hyn yn digwydd ond mewn tua thraean o'r achosion perthnasol a welsom.

Gwelsom enghreifftiau da o brotocolau rhyddhau lleol yn disgrifio cyfrifoldebau'r darparwyr prawf, y carchardai a'r awdurdodau lleol gyda gweithredu'r ddyletswydd i atgyfeirio. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau gan rai awdurdodau lleol lle'r oedd swyddogion tai'n ymweld â charchardai neu'n gwneud asesiadau dros y ffôn neu gyswllt fideo, i drefnu llety'n gynt ar ôl rhyddhau. Nid oedd y mesurau yma'n gyffredinol o gwbl ac roedd angen staff yn y carchardai i'w hwyluso. Mae'r rhannu rhwng yr NPS a'r cwmnïau CRC wedi gwanhau gwaith partneriaeth lleol, sy'n llai effeithiol a gyda llai o adnoddau. Bydd symud at wasanaeth prawf unedig yn rhoi cyfle i gywiro hyn.

Ar hyn o bryd nid oes dull traws-lywodraeth o ddod o hyd i dai i droseddwyr, ac mae angen hyn i osod llety yng nghyd-destun y strategaeth ehangach o leihau troseddu. Mae'n galonogol bod HMPPS, yn ddiweddar, wedi sefydlu cyfarwyddiaeth i ddatblygu gwaith strategol ar lety ac edrychwn ymlaen at weld gwelliannau yn y gwasanaethau.

## Rhoi mwy o lais i ddefnyddwyr gwasanaeth

Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd yr Arolygiaeth ei strategaeth gyntaf ar gynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Mae ein strategaeth yn syml ac yn cynnwys tri amcan strategol:

1. Gofyn cyngor gan (gyn) ddefnyddwyr gwasanaeth ar ein methodoleg arolygu.
2. Cynyddu'r rôl y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei chwarae yng ngwaith yr Arolygiaeth.
3. Bod yn gyflogwr hollol gynhwysol drwy agor ein hymgyrchoedd recriwtio i rai sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol eu hunain.

Er bod cael darparwyr i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn elfen allweddol o'n fframwaith safonau arolygu, roeddem yn cydnabod bod bwlch yn ein dull o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yng ngwaith yr Arolygiaeth. Aethom ati i geisio newid hyn yn ail flwyddyn ein harolygiadau craidd (2019/2020) drwy siarad â chynghorau defnyddwyr gwasanaeth yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a arolygwyd lle'r oedd y cynghorau'n bodoli. Gydag achosion a ddewiswyd i asesu pob gwasanaeth yn fwy manwl, roeddem hefyd yn rhoi cyfle i bob defnyddiwr gwasanaeth siarad ag arolygydd am eu profiad o fod dan oruchwyliaeth prawf. Er na ddewisodd lawer fanteisio ar y cyfle hwn, cynhyrchwyd data gan 130 o ddefnyddwyr gwasanaeth a helpodd i oleuo ein dyfarniadau am eu hachosion.

Rhoddir enghreifftiau da o'n hymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod arolygiad yn adroddiad CRC Humberside, Lincolnshire a North Yorkshire:[35]

'Siaradwyd ag 18 o unigolion yr oeddem wedi arolygu eu hachosion. Dywedodd y rhan fwyaf fod eu swyddog cyfrifol yn gofyn am bethau perthnasol i'w troseddau a bod eu barn yn cael ei hystyried wrth gynllunio beth fyddai'n digwydd yn ystod eu gorchymyn neu ar drwydded. Dywedodd bob un eu bod wedi derbyn y cymorth oedd ei angen arnynt i gadw allan o drwbl. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth wrthym: "Mae pawb yno'n wych, sbot-on". Ac un arall: "Alla i ddim eu canmol ddigon".

'Cawsom hefyd gyfarfod â phedwar defnyddiwr gwasanaeth yn swyddfa Selby. Roedd eu sylwadau i ni'n bositif ar y cyfan. Dywedodd un ei bod yn teimlo y gallai fod yn onest gyda'i swyddog cyfrifol am sut yr oedd yn teimlo ond nad oedd cymorth i ddelio â phroblemau iechyd meddwl. Disgrifiodd un arall y gwasanaeth fel un campus er yn teimlo na fyddai'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth prawf. Disgrifiodd un arall ei reolwr achos fel:

*"Parchus a hyblyg [trefnu apwyntiadau o gwmpas ei ymrwymiadau gwaith], deallgar, parod iawn ei gydymdeimlad, gwrandawr da, yn ysgogi a dangos diddordeb yn fy mywyd, nid dim ond yn fy ngweld fel troseddwr".*

Rydym wedi dysgu beth sy'n gweithio'n dda a ddim cystal gyda'r dull hwn, ac wedi gofyn am gyngor pellach gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac eraill i sefydlu trefn aml-ddull o gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol, a ddylai gynhyrchu mwy o ymateb a mwy o ddata a bwydo'n uniongyrchol i'n dyfarniadau. Byddwn yn treialu a chyflwyno'r dull newydd hwn fel rhan o'n rhaglen arolygu yn y dyfodol, ar ôl i'r gwasanaeth prawf fynd yn unedig.

Fodd bynnag, cawsom gryn lwyddiant gyda chasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth drwy ein harolygiadau thematig cenedlaethol. Roeddem wedi partneru gyda'r corff Empowering People: Inspiring Change (EP:IC) ar ein harolygiad thematig o lety, gan groesawu cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o'r tîm arolygu am y tro cyntaf. Drwy ein cydweithwyr yn EP:IC, cawsom air â 75 o ddefnyddwyr gwasanaeth presennol. Gallodd ein cydweithwyr yn EP:IC greu'r ymddiriedaeth angenrheidiol oherwydd eu bod wedi cael yr

[35] HM Inspectorate of Probation. (2020). Inspection of Humberside, Lincolnshire and North Yorkshire CRC.

un profiadau, i holi barn y defnyddwyr gwasanaeth am eu profiad o ddigartrefedd. O'r herwydd roedd y dystiolaeth a chynnwys yr adroddiad wedi eu goleuo'n llawn gan adborth yr unigolion oedd wedi derbyn gwasanaethau prawf gan ddod â'u profiadau'n fyw, fel y gwelwn o'r dyfyniadau isod:

*"Mae'n help mawr os yw rhywun yn dangos eu bod yn malio amdanoch. Mae'n gwneud i chi fod eisiau helpu eich hun".*


*"Nid y llety ei hun sy'n bwysig – mae angen cymorth o gwmpas y llety".*

*"Wyddwn i ddim am Drwy'r Gât felly cefais fy rhyddhau i'r stryd, yn ofnus a bregus, a bu'n rhaid i mi gael pabell. Wnes i ddod allan ar ddydd Gwener felly roeddwn yn ddigartref drwy'r penwythnos tan i'r cyngor agor ddydd Llun".*

*"Meddyliais y byddwn yn hapus o ddod allan, ond teimlad gwag oedd gen i. Doedd gen i nunlle i fynd".*

Rydym yn adeiladu ar fanteision y dull hwn o weithio. Rydym wedi gweithio â EP:IC ar arolygiadau thematig eraill ers hynny a byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau defnyddwyr gwasanaeth fel rhan graidd o'n gwaith arolygu. Mae ein swyddog cyswllt defnyddwyr gwasanaeth ni ein hunain hefyd yn gweithio i ddatblygu a gwreiddio'r dull newydd hwn o weithio.

# Atodiad 1 – Data ategol



**Tabl 3: Cyfran o'r achosion a ddyfarnwyd i fod yn foddhaol yng nghwmnïau CRC Durham a Tees Valley, Northumbria, South Yorkshire a Thames Valley:**

| | DTV Bl. 1 | DTV Bl. 2 | N'bria Bl. 1 | N'bria Bl. 2 | SY Bl. 1 | SY Bl. 2 | TV Bl. 1 | TV Bl. 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A yw'r asesu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 47% | 53%▲ [36] | 54% | 58%▲ | 48% | 67%▲ | 68% | 70%▲ |
| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 36% | 55%▲ | 45% | 51%▲ | 46% | 59%▲ | 57% | 61%▲ |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaeth yn cynorthwyo'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 42% | 53%▲ | 41% | 56%▲ | 45% | 60%▲ | 34% | 47%▲ |
| A yw'r adolygu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 33% | 54%▲ | 38% | 48%▲ | 56% | 59%▲ [37] | 44% | 42%▼ |

**Tabl 4: Ansawdd yr ymarfer aml-asiantaerth i gadw pobl yn ddiogel**

| | Cwmnïau CRC 2019-2020 | NPS Gog-O Lloegr 2019-2020 |
|---|---|---|
| A yw'r asesu'n gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | **38%** | **66%** |
| A yw'r cynllunio'n cysylltu'n briodol i waith asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth, ac i unrhyw gynlluniau aml-asiantaeth? | **49%** | **85%** |
| A yw rhan asiantaethau eraill mewn rheoli a lleihau'r risg o niwed yn cael ei gydlynu'n iawn? | **46%** | **63%** |
| A yw'r adolygu'n wedi'i oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n rhan o reoli risg o niwed y defnyddiwr gwasanaeth? | **48%** | **66%** |

# Atodiad 2: Effaith arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM

## Adran 1

Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol: Argymhellion Blwyddyn 1

Gwnaed 194 o argymhellion i gwmnïau CRC (neu i HMPPS neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn ein harolygiadau prawf o'r 21 CRC yn 2018/19.

Prif themâu'r argymhellion ym mlwyddyn un i wella perfformiad y cwmnïau CRC oedd:

- Gwella gweithdrefnau rheoli risg a diogelu'r cyhoedd
- Gwella sgiliau staff wrth oruchwylio troseddwyr ar sail tystiolaeth
- Ehangu a chynyddu argaeledd ymyriadau a chyfleoedd adsefydlu
- Cynyddu faint o oruchwylio rheolwyr sy'n digwydd a'i ansawdd
- Gwella agweddau allweddol ar reoli achosion, gan gynnwys asesu, cynllunio ac adolygu
- Gwella ansawdd rhai adeiladau, cyfleusterau a systemau TGCh
- Sicrhau nad yw llwythi gwaith staff PO a PSO yn rhy drwm

Cynnydd ar ein hargymhellion i gwmnïau CRC

Rydym wedi adolygu'r cynnydd gydag argymhellion blwyddyn un yn y 10 CRC a arolygwyd ym mlwyddyn dau a chanfod bod y cynnydd canlynol wedi'i wneud gyda'r 59 argymhelliad a wnaed iddynt ym mlwyddyn un:

- Roedd cynnydd boddhaol gyda 18 o'r argymhellion (31%)
- Roedd peth cynnydd gyda 28 o'r argymhellion (47%)
- Nid oedd unrhyw gynnydd gyda 13 o'r argymhellion (22%)

Yr hyn sy'n bryderus yw'r rhai lle na wnaed unrhyw gynnydd:

- Rheoli risg a diogelu'r cyhoedd (5 argymhelliad)
- Llwythi gwaith (2 argymhelliad)
- Cyfleusterau i staff (2 argymhelliad)
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth
- Sgiliau staff
- Rheoli absenoldeb salwch

## Adran 2: Argymhellion i gwmnïau CRC ac i'r NPS

### Argymhellion Blwyddyn 2 i gwmnïau CRC

Fel rhan o arolygu'r 10 cwmni CRC ym mlwyddyn dau, fe wnaethom 66 o argymhellion ychwanegol a phrif themâu'r rhain oedd:

- Gwella gweithdrefnau rheoli risg a diogelu'r cyhoedd
- Gwella sgiliau staff wrth oruchwylio troseddwyr ar sail tystiolaeth
- Ehangu a chynyddu argaeledd ymyriadau a chyfleoedd adsefydlu
- Cynyddu faint o oruchwylio rheolwyr sy'n digwydd a'i ansawdd

- Gwella rheoli gwaith di-dâl drwy gynnig cyfleoedd lleoliad gwell, hyfforddiant i gyfranogwyr, a rheoli risg.

### Argymhellion i'r NPS

Fe wnaethom 107 o argymhellion i'r saith parth NPS (neu i HMPPS neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn arolygiadau prawf Blwyddyn Un.

Y ddau brif argymhelliad yn adroddiadau'r NPS oedd:

- Gwella gweithdrefnau rheoli risg a diogelu'r cyhoedd
- Gwella ansawdd adeiladau, cyfleusterau a systemau TGCh. Roedd cyflwr gwael adeiladau'r NPS o bryder arbennig.

Roedd argymhellion eraill yn ymwneud â:

- Sicrhau nad yw llwythi gwaith staff PO a PSO yn rhy drwm
- Sicrhau bod Parthau'n recriwtio digon o staff
- Sgiliau staff wrth oruchwylio troseddwyr ar sail tystiolaeth
- Sicrhau bod gwiriadau diogelu plant a cham-drin domestig yn cael eu gwneud
- Ehangu a chynyddu argaeledd ymyriadau a chyfleoedd adsefydlu a gwneud defnydd iawn o gwmnïau CRC
- Sicrhau bod adroddiadau i'r llys yn gynhwysfawr a bod gan dimau llys ddigon o staff
- Sicrhau'n well bod y Parthau'n rhoi sylw i faterion cydraddoldeb a diffyg cymesuredd
- Cydnabod a gwneud defnydd gwell o Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr

## <u>Adran 3: Argymhellion o'r arolygiadau thematig</u>

### Arolygiad o'r llety a chymorth a roddir i droseddwyr (oedolion) yn y gymuned ac ar ôl eu rhyddhau o garchar

Yn ein harolygiad thematig o lety, fe wnaethom 11 o argymhellion (2 i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a 9 i HMPPS). Cytunodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn llawn i'r argymhellion, cytunodd HMPPS i 6 allan o 9 a chytunwyd yn rhannol i'r 3 argymhelliad arall. Rhoddir manylion y camau gweithredu a'r amserlen ar eu cyfer yng nghynllun gweithredu HMPPS yn: https://www.gov.uk/government/publications/accomodation-hmip-action-plan

### Arolygiad thematig o'r ymchwiliad SFO a'r broses adolygu

Yn dilyn ein harolygiad thematig o'r broses SFO, fe wnaethom 15 o argymhellion (2 i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a 13 i HMPPS). Cytunodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i bob un, cytunodd HMMPS i 8, cytunwyd yn rhannol i 3 ac ni chytunwyd i 2 argymhelliad. Rhoddir manylion y camau gweithredu a'r amserlen ar eu cyfer yng nghynllun gweithredu HMPPS yn: https://www.gov.uk/government/publications/serious-further-offences-sfo-investigation-and-review-process

### Arolygiad thematig ar-y-cyd o Reoli Troseddwyr yn Integredig (IOM)

Yn dilyn ein harolygiad thematig o IOM, gwnaed 11 o argymhellion i ystod o sefydliadau'n cynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, HMPPS, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac i arweinwyr yr heddlu a sefydliadau CRC a phrawf cenedlaethol. Cytunodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref i ddeg o'r argymhellion a chytunwyd yn rhannol i'r llall. Ar adeg yr ysgrif hon, nid oedd HMPPS wedi rhoi manylion y camau gweithredu a'r amserlen ar eu cyfer ar-lein.